



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

LLYFRAU'R FORD GRON

Trysorau'r iaith Gymraeg am Chwe Cheiniog.

- *1. **PENILLION TELYN.** Curiadau calon y werin.
- *2. **WILLIAMS PANTYCELYN.** Temtiad Theomemphus.
- *3. **GORONWY OWEN.** Detholiad o'i Farddoniaeth.
- *4. **EMRYS AP IWAN.** Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, I.
- *5. **EMRYS AP IWAN.** Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, II.
- *6. **DAFYDD AP GWILYM.** Detholiad o'i Gywyddau.
7. **SAMUEL ROBERTS.** Rhyfel a Heddwch (ysgrifau).
8. **THOMAS EDWARDS (Twm o'r Nant).** Tri Chryfion Byd.
9. **Y FICER PRICHARD.** Cannwyll y Cymry.
10. **Y MABINOGION.** Stori Branwen ferch Llyr.
11. **MORGAN LLWYD.** Llythyr at y Cymry Cariadus, etc.
12. **IOLO GOCH, LEWIS GLYN COTHI, TUDUR ALED, SION CENT, DAFYDD NANMOR, a DAFYDD AB EDMWND.** Detholiad o'u Barddoniaeth.
13. **ELIS WYNNE.** Gweledigaeth Cwrs y Byd (Y Bardd Cwsg).
14. **EBEN FARDD.** Detholiad o'i Farddoniaeth.
15. **THEOPHILUS EVANS.** Drych y Prif Oesoedd (Detholiad).
16. **JOHN JONES, GLAN Y GORS.** Seren tan Gwmwl.
17. **SYR JOHN MORRIS-JONES.** Salm i Famon.
18. **GWILYM HIRAETHOG.** Bywyd Hen Deiliwr.
19. **SYR OWEN EDWARDS.** Ysgrifau.
20. **ISLWYN.** Detholiad o'i Farddoniaeth.

Y rhai a farciwyd â (*) yn awr yn barod.

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR, WRECSAM

LLYFRAU'R FORD GRON, RHIF 7



¶ Cyfres o Drysorau'r
Iaith Gymraeg



SAMUEL ROBERTS

HEDDWCH A RHYFEL



6d.

WRECSAM
HUGHES A'I FAB

28915 f 40

GWEITHIAU BEIRDD CYMRU.

CANIADAU SYR JOHN MORRIS JONES. Lliain, ymyl uchaf aur, 5s.

CANIADAU ELFED. Lliain, 2s.

TELYNEGION MAES A MOR: EIFION WYN. Lliain, 2s. 3*d.*

YNYS YR HUD A CHANIADAU ERAILL: W. J. GRUFFYDD. Byrddau, 3s. 9*d.*

CERDDI'R BUGAIL: HEDD WYN. Lliain, llythrennau aur, 3s. 6*d.*

CERDDI CRWYS. Lliain, 3s. 6*d.* Papur, 2s. 6*d.*

CERDDI NEWYDD CRWYS: Lliain, 3s. 6*d.* Papur, 2s. 6*d.*

CEIRIOG: Detholiad o'i waith gan yr Athro T. GWYNN JONES. Lliain, 3s. 6*d.*

PLANT Y BABELL: WIL IFAN. Byrddau, 3s. 6*d.*

GWEITHIAU TALIESIN O EIFION (bardd y gadair ddu, Wrecsam, 1876), wedi eu golygu gan WIL IFAN. Lliain, 5s.

RHWNG DOE A HEDDIW: Casgliad W. S. GWYNN WILLIAMS o delynegion gan Alafon, Anthropos, Awen Mona, Berw, Bryfdir, Caerwyn, Crwys, Cynan, Dyfed, Dyfnallt, Eifion Wyn, Elfed, Elphin, W. J. Gruffydd, Gwili, Hedd Wyn, John T. Job, J. Morris-Jones, R. H. Jones, Meurnyn, R. Williams Parry, Pedr Hir, Pedrog, R. Silyn Roberts, Sarnicol, Wil Ian, G. J. Williams, Gwilym Williams, J. J. Williams, Wyn Williams, gyda rhagymadrodd gan yr Athro T. Gwynn Jones. Byrddau, 3s. 6*d.*

GWAED IFANC: J. T. JONES ac E. PROSSER RHYS. Papur, 1s.

CRIAFOL: GWILLY DAVIES A DAVID JONES. Gyda rhagymadrodd ar y delyneg a'r soned gan Dr. T. H. Parry-Williams. Lliain, 3s. 6*d.*

HUGHES 'A'I FAB, CYHOEDDWYR, WRECSAM

*S.R., Llanbrynmair:
Heddwch a Rhyfel*

LLYFRAU'R FORD GRON
RHIF 7

*WRECSAM
HUGHES A'I FAB*

LLYFRAU'R FORD GRON

GOLYGYDD: J. T. JONES



GWNAED AC ARGRAFFWYD YN WRECSAM

RHAGAIR.

GŴR a welai ddyfodol gwell ac a weithiai'n daer amdano ydoedd Samuel Roberts, Llanbrynmair. Carai Gymru â'i holl enaid. Amddiffynnai Heddwch â chleddyf daufiniog.

Trwy gydol ei hir oes (fe'i ganwyd yn 1800, ac yn 1885 y bu farw) fe lafuriodd yn ddiymarbed i oleuo a dyrchafu ei bobl. Bu'n gefn i'r di-amddiffyn, yn elyn i'r trahaus. Ymladdodd yn erbyn gormes y meistri tir a'u stiwardiaid, a thrwy ei *Gronicl* bach fe sythodd gefn y gwan, a dysgu ei genedl am wleidyddiaeth a llywodraeth, am bobloedd y byd, am arian a gwaith, am gymdeithas well, am grefydd gryfach, am " uchel ymfrost y gwŷr mawr, ac isel ddichell y gwŷr mân," ac am y " ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist " i basio heibio i uffern drist rhyfeloedd.


Yn Llanbrynmair, Sir Drefaldwyn, y ganwyd S.R., yn fab i'r Parch. John Roberts, gweinidog yr Hen Gapel yno. Aeth i Goleg Llanfyllin, ac fe'i urddwyd yn 1827 yn gyd-weinidog â'i dad yn Llanbrynmair. Wedi marw ei dad yn 1834, daeth yr holl ofal ar S.R. Hwylodd am America yn 1857, i sefydlu gwladfa lle ni byddai orthrwm. Torrodd y Rhyfel Cartrefol allan pan oedd yno, ac yn 1867, wedi colli llawer o arian ac eiddo, daeth yn ôl i Gymru, ac o hynny ymlaen fe fu ef a'i ddau frawd yn byw yng Nghonwy. Yno hefyd, ac yn yr un bedd, y claddwyd y tri.

RHAGAIR

Fe gyhoeddodd S.R. amryw gyfrolau, ac yn eu plith gyfrol o brydyddiaeth (yr oedd yn awdur nifer o emynau, ac yn eu plith yr un adnabyddus "O blentyn y nefoedd"). Yn y detholiad bychan a ganlyn o doreth ysgrifau S.R. ar Heddwch a Rhyfel, gellir gweled fel y ffeiddiai ryfel a'r rhai a'i gogoneddai, mor danbaid oedd ei weledigaeth, mor ddygn y dilynai hi, mor huawdl y pregethai hi, ac â'r fath raeadr o wawd y brwydrai yn erbyn nerthoedd y nos.

CYNNWYS.

	<i>Td.</i>
CREDO	7
PLANT REBECCA	12
CYMDEITHAS HEDDWCH	14
Y DAITH I FRANKFORT	15
CYMDEITHAS HEDDWCH A'I GWAWDWYR	20
CODI MILITIA	30
WELLINGTON	31
MILITIA MEIRION	34
GOFWY Y CNAF O RWSIA	35
Y RHYFEL	38
DUWIAU RHYFEL TALHAIARN	39
Y METHODISTIAID A'R RHYFEL	41
YMWELIAD VICTORIA A FFRAINIC	44
FFRAINIC A LLOEGR YN ARGLWYDDESAU'R BYD	45
Y WEDDI FAWR	47



Credo.

CYHOEDDODD yr ysgrifennydd o bryd i bryd yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf amryw nodiadau byrion mewn perthynas i **DDRYGEDD RHYFEL**; ac y mae am atgyhoeddi crynhoad o rai ohonynt yn y dull yma fel cyffes o'i gred sefydlog:

1. Fod Llywodraethau Ewrob, wrth gydymannog flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac oes ar ôl oes, i gynnal sefydliadau milwraidd y naill ar gyfer y llall, yn diystyru addysgiadau egluraf y Gwar-edwr, ac yn mathru dan eu traed egwyddorion pwysfawrocaf yr efengyl.

2. Fod euogrwydd arswydus yn gorwedd arnynt oherwydd eu hoffter gwallgofus o rwysg a bri ac elw sefydliadau milwraidd.

3. Mai wrth ddrysau y Llywodraethau *galluocaf*, megis yr eiddo Lloegr a Ffrainc a Rwsia, y mae'r rhan fwyaf o'r drwg yn gorwedd.

4. Fod dwylo celfyddyd yn cael eu llyffetheirio yn drwm, a bod ysgwyddau diwydrwydd yn cael eu beichio yn ofnadwy; a bod dylanwad pob rhinwedd ac addysg bron cael ei lethu drwy y draul, a'r trais, a'r traha, a'r glythineb, a'r diogi, a'r difrod, a'r dichellion, a'r barbareidd-dra a geir bob amser yn gysylltiedig â phob sefydliadau milwraidd.

5. Fod sefydliadau milwraidd wedi bod bob amser yn dramgwyddiadau ar ffordd cydfasnach-aeth gwahanol deyrnasoedd, ac yn brofedigaethau ar lwybr eu tangnefedd: ac y parhant i fod yn dramgwyddiadau ac yn brofedigaethau felly cyhyd ag y cânt eu cynnal yn eu rhwysg presennol.

HEDDWCH A RHYFEL

6. Y buasai yn hawdd iawn i lysoedd *cryfaf* Ewrob, yn ystod y deugain mlynedd diwethaf, fabwysiadu moddion effeithiolach nag arfau rhyfel er terfynu eu dadleuon, a diogelu tangnefedd y byd, pe buasent yn dewis hynny, ac yn cydymgais am hynny.

7. Eu bod yn anewyllysgar iawn i hen grefft "ogoneddus" rhyfel syrthio i anfri, a'u bod bron ymollwng i lewygfeydd wrth feddwl am ei darfodedigaeth.

Beiwyd yr ysgrifennydd yn drwm drwy holl rediad y ddwy flynedd ddiwethaf, am ei fod yn methu cyfiawnhau'r rhyfel presennol â Rwsia. Dynodwyd ef lawer gwaith fel dyn anffyddlon i'w wlad, ac fel amddiffynnydd gormes Rwsia: ond gall dystio'n gydwybodol nad yw ddim yn anffyddlon i hen wlad ei enedigaeth. Y mae yn caru ei wlad, ac am ei *chanmol* yn wresog am bob peth a welo yn deg ac yn hawddgar yn ei chymeriad; ac o'r tu arall y mae yn ddigon hyf i'w *beio* am yr hyn a welo ynddi yn groes i ryddid ac iawnder a boneddigeiddrwydd yr efengyl.

Y mae'r rhyfel â Rwsia yn awr ar ben. Y mae llygad yr hanesydd wedi bod yn hir graffu ar ei holl helyntion gwaedlyd, er tynnu darlun ohonynt i'w osod o flaen yr oesau a ddaw. Bydd y darlun yn un mawr a manwl. Bydd ei liwiau yn ddyfnion—ei gochni yn goch iawn, a'i dduwch yn ddu iawn. Darlunir ynddo linellau ysbryd a bywyd ei gychwynwyr. Paentir ynddo mewn lliwiau eglur ei holl achlysuron, a'r dryswch, a'r difrod, a'r creulondeb, a achosodd. Codir y darlun mawr i fyny i le amlwg. Edrychir arno o hyn allan yn nrych hanesyddiaeth, a theflir goleuni ar holl ochrau y drych o holl gonglau y ddaear. Ceir golau arno, nid o un wlad yn unig,

CREDO

ond o wahanol wledydd,—nid o Loegr, a Ffrainc, a Sardinia, a Turkey yn unig; ond o Rwsia, a Phersia, a Phrwsia, ac America. Ceir goleuni ar hanes ei helynt o fil o fannau; a cheir golau o'r *cysegr* arno, nid fel golau gwreichion dugoch y ddwy flynedd ddiwethaf, ond goleuni disgleirwyn tanbeidiol wedi ei dderbyn o lamp fawr ysbrydoliaeth; ac yr ydym yn credu yn gryf y bydd llais *unfrydig* yr oesau a ddaw, wrth edrych ar y darlun, yn uchel gondemnio ymddygiadau Turkey, Ffrainc, a Lloegr, yn gwyllt ymgynddeirïogi i ryfel ar adeg cychwyniad eu dadleuon.

Ar amserau o gynnen, y mae llywodraethau, fel personau, yn dueddol iawn i fod yn ystyfnig a hunanol. Y mae llawer gwlad, ar ambell i adeg felly, wedi bod yn or-ynfyd o hunanol, ac yn wallgofus o frolgar; ond yr ydym yn cydnabod er ein cywilydd nad ydym yn meddwl i'r un wlad erioed (na gwaraidd na barbaraidd) ymollwng i frolio yn uwch a gwrthunach nag y gwnaeth Lloegr fawr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; ac erys brol-eiriau ei balchder yn warth ar ei henw tra y llifa'r Dafwys trwy ganol ei phrif-ddinas.

Ac y mae'n drwm iawn gennym gyffesu ein cred y buasai'r rhyfel yn cael ei *barhau*, a'i *drymhau*, a'i *ledaenu*, er lluosogi colledion a pheryglon teyrnasoedd Ewrob, pe buasai llais LLOEGR yn gallu llwyddo yn y cynadleddau diweddar fu'n eistedd ar yr achos. Un o ddalennau duaf hanesyddiaeth y byd ydyw dalen "*rhyfeloedd Lloegr*." Gobeithio gan Dduw y bydd iddi bellach newid ei thôn a'i hysbryd gyda golwg ar fuddioldeb a "gogoniant" ei sefydliadau rhyfel. Os na wna, bydd ei henw yn

HEDDWCH A RHYFEL

felltith ac yn rheg hyd derfyn eithaf y byd, ac erys felly hyd brynhawn diwethaf y ddaear.

I bwy yn Lloegr y deilliodd bri o'r rhyfel? Ymgysura rhai yn wyneb ei ddrygau *cartrefol* trwy geisio dywedyd ei fod wedi gwella ac enwogi Lloegr yn ei chysylltiadau *tramor*. Dywedant os darfu i'r rhyfel dlodi, a llygru, a gwanychu peth ar ein gwlad ni,—os darfu i'r rhyfel drymhau beichiau diwydrwydd a llafur gartref, ac ennyn cynnen a chenfigen rhwng rhai o'r pendefigion, ei fod wedi gwneud lles mawr i Loegr yn ei pherthynas â theyrnasoedd eraill; ac yn flaenaf ac yn bennaf, ei fod wedi magu cariad rhwng Lloegr a Ffrainc.

Gyda golwg ar y cariad hynny rhyngddynt, a ganmolir mor uchel yn y dyddiau hyn, dywedwn mai cariad go newydd, go *fresh*, go sydyn ydyw—mai cariad go oriog ydyw, weithiau yn oer ac weithiau yn frwd—mai cariad yn edrych yn groes-gornelog ydyw—mai cariad yn llefain fel symbal yn tincian ydyw—mai cariad yn cenfigennu ydyw—mai cariad yn ymffrostio ydyw—mai cariad yn ymchwyddo ydyw—mai cariad yn ceisio yr eiddo ei hun ydyw—mai cariad hawdd ei gythruddo ydyw—mai cariad yn meddwl drwg ydyw—mai cariad llawen am anghyfiawnder ydyw—mai cariad nad all gydlawenhau â'r gwirionedd ydyw—ac mai cariad a “ gwymp ymaith ” ydyw, os na cheir rhywbeth gwell i'w borthi na “ gogoniantau ” milwraidd.

Haerir mai rhyfel ydoedd “ o blaid gwareiddiad a Christnogaeth.” Yr ydym wedi rhyfeddu llawer uwchben *barbariaeth* y fath haeriad. Pleidio gwareiddiad trwy ryfel! Perffeithio gwareiddiad Ewrob trwy daenu barbareaidd-dra rhyfel trwy Ewrob! Pleidio rhinwedd trwy lygredig-

CREDO

aeth! Addfwynder trwy fyrbwylltra! Cariad trwy greulondeb! Pwyll a threfn trwy derfysg ac anhrefn! Cynildeb a chyfoeth drwy wastraff a difrod! Boneddigeiddrwydd a gwareiddiad trwy gynlluniau a chyflafanau'r barbareidd-dra erchyllaf. Nid oes gennym ond dywedyd mai barbariaid anwaraidd ydyw'r bobl sy'n dal y fath athrawiaeth. Dichon eu bod yn gwisgo ysgarlad a sidanau, ond barbariaid ydynt. Dichon fod ganddynt gadwynau aur am eu gyddfau, ond barbariaid ydynt. Dichon eu bod yn byw mewn plasau o farmor, ond barbariaid ydynt. Dichon bod y pasgedigion breision a'r gloyw-wîn puredig ar eu byrddau, ond barbariaid ydynt. Dichon eu bod yn ddadleuwyr ffraethion mewn llysoedd seneddol, ond barbariaid ydynt. A barbariaid *fyddant* nes cael cyfnewidiad. Ie, a hoff-soniant hefyd am "ryfel i bleidio Cristnogaeth!" "Pleidio Cristnogaeth trwy ryfel"! Dyna'r gabldraeth dduaf ar Gristnogaeth a lifodd erioed dros wefusau coelgrefydd—y dduaf a ddaeth erioed o enau anffyddiaeth. Ie, y rhyfel yn rheidiol er pleidio Cristnogaeth. Na, na, erys hanes y rhyfel diweddar yn dystiolaeth dragwyddol yn erbyn Turkey, a Ffrainc, a Lloegr fod dylanwad Cristnogaeth, dylanwad efengyl y tangnefedd, wedi cael ei lwyr fygu trwy gylchoedd eu hawdurdod.

Dywed eraill yn dduwiolaidd iawn y "tyn Duw *dda* o'r *drwg* i gyd." Yr ydym ninnau yn credu y gall ef wneud hynny. Y mae ef yn ddoeth ac yn drugarog ac yn gyfiawn. Y mae ei Ragluniaeth ef lawer tro wedi tynnu'r daioni mwyaf o'r drygau gwaethaf. Ond rhaid i ni ardystio hyd farw yn erbyn phariseaeth ac anffyddiaeth yr ysgelerwyr diegwyddor a dideimlad

sy'n " gwneud drwg fel y dêl daioni." Byddem ni mor barod i briodoli rhinwedd a thegwch i'r brawdlysoedd phariseaidd a saduceaidd a phaganaidd fu'n condemnio Tywysog y Bywyd, ac i'r *mob* o wallgofiaid fu'n gwawdio ac ysgwyd pen o gylch ei groes, ag ydym i briodoli rhinwedd a thegwch i'r llysoedd ac i'r *mobs* fu yn Turkey, Ffrainc, a Lloegr yn ymwylltio i ennyn y rhyfel yr ydys newydd ei derfynu. Gobeithio y tyn Rhagluniaeth dirion y nef ddaioni mawr allan o holl greulonderau'r rhyfel; ond nid oedd gan y rhai a *fynnent* y rhyfel ddim mwy o fryd nac o fwriad i bleidio Cristnogaeth nag oedd gan swyddwyr llysoedd Pilat, a Herod, a Chaiaphas fore dydd y croeshoeliad.

Pwy na weddïai—na thaer weddïai—am wawriad, ïe, am wawriad *buan*, y dydd teg tawel pan godir dynion addfwyn, boneddigaidd a heddychgar i weinyddu yn llysoedd Ewrob! Yna llifai allan eu heddwch fel yr afon, a'u cyfiawnder fel tonnau'r môr.—*Mai*, 1856.

Plant Rebecca.

YR ydym yn deall fod *Cymdeithas Heddwch*, o gariad at gymeriad a lles y Dywysogaeth, wedi anfon annerch garedig a sobr at deulu Rebecca, er eu cymell i ystyried a chofio fod pob gweithred o derfysg a dinistr yn groes i ysbryd Cristnogaeth, ac yn anghyson â'r broffes o fod yn ddilynwyr yr Oen.

Dymunem gefnogi, hyd y medrom, bob ymgais o'r fath i feithrin tangnefedd a phwyll, er mwyn gwneud pob peth yn weddaidd ac mewn trefn.

Y mae trais a bygythion bob amser yn peri anfri a cholled, ac yn arwain i boen a galar: gan hynny, taer anogem ein darllenwyr i ddyfal ymgadw ar bob achlysur oddi wrth bob math o “ *Siartiaeth.*”

Wrth eu hannog i hyn, yr ydym yn rhwym o gydnabod fod llawer o annhegwch ac o orthrymder wedi hir ffynnu yn ein gwlad; a bod ynadon a Seneddwyr yn fyddar iawn i wrando cŵyn, ac yn anniben iawn i unioni cam. Y mae rhai ohonynt yn rhy segur eu meddyliau i allu dirnad pa fodd y mae pethau yn mynd ymlaen; ac y mae eraill ohonynt, er deall fod y wlad yn cael ei gwasgu, mor “chwannog i elw” fel y defnyddiant eu holl gyfrwystra i atal pob diwygiad. Y mae ein gwlad drwy hyn wedi ei gweithio i lithrigfa, ac ar ogwydd i gael ei handwyo.

Os gofynnir, Beth sydd i’w wneud yn wyneb hyn? Atebwn, *nid* ymderfysgu i ymddial—*nid* ymgyfuno i ddrygu neb, nac i ddifetha dim trwy drais na dichell; ond gyda phob ystyriaeth, a difrifoldeb, a phwyll, dylem hysbysu ein rheswm a chofnodi ein pleidlais yn gyhoeddus a di-dderbyn-wyneb *dros* yr hyn a ystyriom yn gyfiawnder, ac yn *erbyn* yr hyn a farnom yn annhegwch. Y mae deddfau ein gwlad yn caniatáu i ni adrodd ein cŵyn a dadlau ein cam. *Ymresymu* ac *eiriol* ydyw’r ffordd effeithiolaf a rhataf inni gael ymwarded. Dyma’r unig ffordd dda a diogel. Gan hynny, na huder ni byth i drais na therfysg: ac, o’r tu arall, na oddefwn i wg na gwên neb ŵyrdroi ein cydwybod. Pe byddai llai o gydymwerthu i gaethiwed ar ddydd cyfeddach yr etholiad, byddai llai o gyfyngderau i gydymgwyno o’u herwydd. Y mae ymollwng i werthu ein hiawnderau am win, neu

wên, neu wobr, bron cyn waethed ag ydyw ym- greuloni i geisio eu had-ennill trwy rym trais.

Ymwyliwn rhag y *ddau* ddrwg yma. Os goddefwn mewn awr o hawddfyd i lwgrwobrwyon ein diraddio, bydd perygl ar ôl hynny mewn awr o wasgfa ein gweithio i ymderfysgu. Os ydym am lesáu ein gwlad, defnyddiwn ein *holl* iawn- derau gwladol a chrefyddol mewn modd cyson, cydwybodol a boneddigaidd, gan lwyr ymwadu â phob traisorthrech. Y mae rhyddid i ni ddefn- yddio effeithiolaeth pob dawn sydd gennym er mwyn diwygio yr hyn sydd feius. Gallwn arfer pob moddion moesol sydd yn ein cyrraedd er mwyn symud yr hyn sydd orthrymus. Os methwn yn y dull yma, nid oes gennym ond rhoddi ein hachos ar yr Hwn sydd yn barnu yn gyfiawn. Y mae ef yn gweled cystudd y rhai gorthrymedig, a gŵyr oddi wrth eu doluriau. Y mae ef yn clywed eu gwaedd, a daw eu dagrau mewn coffa ger ei fron. Ei swydd ef yw talu'r pwyth. Efe biau dial. Teyrnasa byth, a dwg allan farn i fuddugoliaeth.—*Medi*, 1843.

Cymdeithas Heddwch.

DYMUNEM gymell yma i ystyriaeth ein dar- llenwyr egniadau gwir ganmoladwy y Gym- deithas bwysfawr hon. Ei hegwyddor sylfaenol ydyw—*Fod rhyfel yn anghyson ag ysbryd Crist- nogaeth, ac yn niweidiol i ddedwyddwch dynol- ryw.* Y mae yn awyddus iawn am i wahanol deyrnasoedd ymuno i gyfansoddi llys cyffredin i derfynu trwy *gyflafareddiad* bob dadl a chynnen a ddichon ennyn rhyngddynt. Y mae wedi

Y DAITH I FRANKFORT

anfon annerch rymus o blaid hyn at wahanol lywodraethau, ac y mae wedi derbyn atebion anogaethol iawn o lys Victoria, ac oddi wrth frenhinoedd Ffrainc a Belgium, ac amryw eraill. Y mae yn condemnio'r fasnach mewn caethion ac *opium*, a phob nwyddau niweidiol, am fod hynny'n peryglu tangnefedd y byd: ac y mae, o'r tu arall, yn ymresymu am fwy o *ryddfasnach*-aeth mewn pob nwyddau buddiol, am fod tuedd yn hynny i ddiogelu a helaethu ei heddwch. Y mae yn anghymeradwyo pob cylchwyliau a cholegau milwraidd, ynghyd â phob llyfrau, areithiau ac arferion a dueddant i ennyn ysbryd rhyfelgar ym mynwesau ieuenctid. Y mae yn pleidio lledaeniad pob hysbysiaeth a ellir ei chael am anfoesolaeth a galanastra rhyfel. Geilw yn uchel ar feirdd ac awdwyr, ar rieni ac athrawon, ar lywodraethwyr a'u deiliaid, ac yn arbennig ar weinidogion yr efengyl, i gydymannog i droi'r cleddyfau yn sychau, a'r gwaywffyn yn bladuriau, ac i gydymrwymo i wneud yr hyn a allant tuag at sefydlu heddwch oesol tros wyneb yr holl ddaear. —*Medi*, 1843.

Y Daith i Frankfort.

YR ydym yn teimlo yn dra rhwymedig i'n cyfeillion yn Llanbrynmair, a'r Drefnewydd, a Llanfyllin, a Llanidloes, a Phenarth, a Llanfair, a Dolgellau, a'r Amwythig, a Thywyn, a Rhuthyn am eu cymhelliad a'u cynorthwy caredig i ni fyned i Frankfort.

Yr ydym yn awr dros 700 milltir o Swyddfa'r CRONICL. Cychwynasom o Lundain tua phump

HEDDWCH A RHYFEL

prynhawn dydd Llun, 19 Awst, ac wedi teithio 88 milltir drwy rannau hyfryd o Ddeheudir Lloegr cyraeddasom Dover tua naw; ac ardderchog iawn oedd yr olwg ar

Yr haul yng ngwely'r heli,
A'r lloer yn ariannu'r lli.

Croesasom i Calais yn Ffrainc cyn hanner nos. Yr oedd y lloer a'r sêr *uwchben* yn gwenu arnom, ac yn cyhoeddi "Heddwch"; ond môr garw, aflonydd, tonnog, chwyddedig, brigwyn yn chwarae a chwerthin wrth luchio pobl gleifion ac ofnus i fyny ac i lawr ydyw'r *English Channel*; ac yr oedd llawer o'r cenhadau i Gymanfa Heddwch, yn feibion a merched, fel rhai hanner meddwon yn *gorfod* dawnsio Polka ar fwrdd y llong, a rhai wedi cwmpo i lawr bron fel meirwon.

Nid oedd fawr o awch gan y cyfryw at y swper da oedd yn Calais, ond yr oeddid yn mynd rywlun drwy'r seremoni. Meddyliem fod tua 500 o genhadau yn cydgychwyn o Lundain, ac yr oedd y fintai yn mynd fwyfwy fel yr oeddid yn nesáu tua dinas yr ŵyl. Yr oedd rhes y cerbydau yn gryn chwarter milltir o hyd, ac yr oedd y cymdeithion yn ymddangos yn siriol a difyr. Yn y cerbyd lle yr oeddym ni, ar un llaw yr oedd *Cymro* hynaws o Lundain oedd yn aelod o'r Ddirprwyaeth; ac ar y llaw arall yr oedd American ffraeth a dysgedig o Philadelphia; ac ar ein cyfer yr oedd dau Sais, a Scotchman gwybodus, rhyddfrydig a chyfeillgar; a cherllaw i hynny yr oedd Crynwn caredig, ond lled ddistaw, o Iwerddon; a chawsom gyfle i ymddiddan llawer am gyfansoddiad a chystrawen gwahanol ieithoedd, am sefydliadau addysg a chrefydd mewn gwahanol deyrnasoedd, am ddefodau gwahanol bobloedd, am erchyllterau rhyfel, ac am ysbryd ac egwydd-

Y DAITH I FRANKFORT

orion pregeth yr Athro mawr ar y mynydd o blaid achos tangnefedd.

Wrth groesi tiroedd Ffrainc, Belgium, a Phrwsia yr oedd amryw bethau yn drawiadol iawn i'n meddwl: megis y drefn gryno oedd ar y meysydd a'r gerddi; y rhesi coedydd gleision ar bob llaw, a'r rhai hynny fel pe buasent oll newydd eu trwsio â'r gwellaif; glendid muriau y tai, am mai *coed*, ac nid glo na mawn, ydyw eu tanwydd; maint ac amledd eu ffenestri, &c., &c. Yr oedd y *merched* fel y meibion allan gyda'r cribin, a'r cryman, a'r bladur, a'r *aradr*, ac yr oeddynt wrth eu gwaith yn bur fore. Yr oedd y tyddynnod bron oll yn *un darn* o wastadedd heb ddim gwrychoedd rhwng y meysydd; ac yr oedd yr anifeiliaid, yn lle cael eu gollwng o amgylch i bori a sathru'r tir, yn cael eu porthi yn rheolaidd yn y tai a'r buarthau; ac y mae yn debyg eu bod trwy drefn felly yn cael llawer mwy o wrtaith i'r tir.

Peth rhyfedd i ni oedd gweled tyddyn helaeth yn ddarnau bychain pedaironglog o wahanol fath o gynnyrch heb amgaeau rhyngddynt; ond yn ymddangos fel *cwilt* gwely amryliw o sidanau. Yr oeddym yn disgwyl gweld eu cnydau yn drymach a'u cynhaeaf ymhellach ymlaen nag yr oeddynt. Ymddangosai'r tir yn lled laith, a meddylie ni y gallasai ffosydd rhwng y meysydd fod o gryn les. Yr oedd llif mawr wedi chwyddo'r afonydd ymhell dros y glannau, a gwelsom lawer o ydau dan ddwfr. Mewn ambell i fan gellid gweld deugain milltir o wastadedd bob ochr i'r ffordd.

Peth newydd hefyd i Gymro ydoedd croesi o'r naill deyrnas i'r llall heb fod yno ddim mwy o glawdd terfyn nag sydd rhwng dwy sir yng

HEDDWCH A RHYFEL

Nghymru. Yr ydym yn credu fod canolfuriau'r gwahaniaeth sydd rhwng gwahanol deyrnasoedd yn cael eu cyflym ddatod, a'u tynnu i lawr o faen i faen; a bod yr amser gerllaw pan ddaw tywysogaethau Cyfandir Ewrob i berthynas mor agos â'i gilydd ag sydd yn bod yn awr rhwng gwahanol siroedd yng Nghymru.

O gyffiniau Tirlemont (Tirymynydd), o gylch hanner y ffordd rhwng Malines a Liege, gellid gweld draw ar y dde golofn bedd rai o'r lladd-edigion ar faes gwaedlyd Waterloo. Ni ddylai neb edrych ar faes Waterloo, lle y lladdwyd mewn ychydig oriau 70,000 o filwyr ac yn eu mysg lawer o Gymry, heb ymgyfamodi yng ngŵydd nefoedd a daear i wneud eu gorau yn erbyn rhyfeloedd. O Liege aethom i *Verviers*, tref fechan flodeuog, 16,000 o breswylwyr, lle y gwneir y brethynnau gorau ar y Cyfandir, lle y cawsom *forebryd* rhagorol rywbyrd ymhell yn y *prynhawn*: ac oddi yno drwy *Aix le Chapelle*, tref 36,000 o bobl, hoff breswylfa Charles Fawr, a lle enwog am ei ffynhonnau iachusol: ac oddi yno aethom i *Cologne*, tref fawr gyfoethog gaerog, 80,000 o breswylwyr, lle y mae pont fawr o gychod dros y Rhine i dref Deufz y tu arall i'r afon; a lle y mae llawer o hen Eglwysydd ardderchog, yn cynnwys Arluniau gan Schutt, a Geldorf, a Durer, a Braun, a Hulsman, a Rubens; a lle y mae Llyfrgell Coleg Jesuitiaid, yn cynnwys 60,000 o gyfrolau; lle yr adeiladodd Cystennin Fawr un o'i gestyll cadarnaf, a lle y cyhoeddwyd Clovis a Pepin yn frenhinoedd y Ffrancod. Lletyasom yn Cologne nos Fawrth.

Am chwech bore trannoeth aethom i'r ager-long, ac i fyny ar hyd y Rhine (yr hon sydd tua hanner milltir o led), drwy ganol yr amrywiaethau hyfrytaf o'r golygfeydd ardderchocaf a welsom

erioed. Ar y dolydd o bob tu i'r afon, ac ar y llechwedd y tu draw i hynny rhwng y creigiau ac ym mhob agen fach oddi rhwng y clogwyni, yr oedd gwinllannoedd a gerddi wedi cael eu plannu ac yn cael eu trin gan law diwydrwydd, a gofal, a medr: a gallasai fod gerddi felly yng nghymoedd a glynnoedd Cymru oni buasai fod treth drom rhyfel, a threth blys, a threth balchder, a threth diogi, wedi ymron fygu bywyd a bywiogrwydd ein gwlad.

Ar un ochr i'r afon byddai hen eglwys yn y dyffryn wrth droed y mynydd, neu hen gastell ar ben y graig, a'r clogwyni o'i ddeutu; ac ar y llaw arall byddai glyn cul gwyrddlas coediog yn ymestyn draw i ganol y wlad. Cawsom forefwyd da am naw, a chinio hyfryd am bedwar, dan len fawr ar fwrdd y llong, a digon o *amser* i'w mwynhau. Yr oedd un longaid o'r cenhadau wedi cychwyn o Cologne hanner awr o'n blaenau ni; ond yr oedd ein llong ni yn hwy ei cham, ac yn gryfach ei gwynt i dynnu i fyny yn erbyn y lli; a chawsom y difyrrwch o weiddi *hwre* wrth oddiweddyd ein cyfeillion ymhell cyn canol dydd, a *hwre* arall wrth flaenu arnynt; ac yr oeddym, ar ôl teithio yn ddifyr iawn gan' milltir ar yr afon, dros awr o'u blaen yn glanio yn Biebrick, lle y mae Plas Duc Nassau: ac oddi yno aethom gyda'r rheilffordd i Frankfort. . .

Y mae Frankfort yn llawn o ryfeddodau. Gwel-som *rai* ohonynt, megis y Kaisersaal, y llys lle y mae arluniau yr ymerawdwyr a goronwyd yn Frankfort; y Golden Bull, neu Magna Charta y ddinas; yr Eglwys Gadeiriol, lle y mae beddfaen y Brenin Gunther, ac arlun y teulu santaidd gan Rubens; yr olygfa eang o gylch y wlad o glochlofft, tŵr uchel yr Eglwys; llyfrgell y ddinas a'i

HEDDWCH A RHYFEL

hynafiaethau; y gladdfa newydd, lle y mae cannoedd o'r beddfeini tlysaf. Yr oedd yn drwm gennym weled yno *ddwy* feddgolofn—y naill i'r dinasyddion, a'r llall i'r milwyr a laddwyd yn chwyldroad 1848; y Museum Staedel, lle y mae llawer iawn o *liw*-luniau ac o *gerf*-luniau ardderchog; Museum Bethman; Museum Zenkenberg; y Casino; y Ffenestr, o'r hon yr anerchodd Luther y dorf wrth gychwyn tua Llys Worms, a'r Ffenestr arall, o'r hon y pregethodd wrth ddychwelyd oddi yno; tŷ genedigaeth y bardd Goethe, a'i golofn; colofn Charles Fawr.

Y mae Hotels ardderchog yn Frankfort, ac amryw o'r rhodfeydd a'r gerddi a'r plasau hyfrytaf o gylch y ddinas.—*Medi*, 1850.

Cymdeithas Heddwch a'i Gwawdwyr.

Y MAE ambell Gymro bach, o Fangor* ac o fannau eraill, yn ei ysbryd anfoneddigaidd ei hun, ac yn ei iaith iselwael ei hun, ac yn ei gornel gul dywell wrth deulu crebychlyd ei bentan du bychan ei hun, yn ceisio arllwys gwawd am ben egniadau Cymdeithas Heddwch, ac yn enwedig ar weithrediadau'r Gynhadledd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Frankfort.

* Ymddengys mai'r Parch. Morris Davies, Bangor, oedd y "Cymro bach" hwn. Yr oedd yn dipyn o fardd ac yn llenor go dda, ac fe gredir ei fod yn dra rhyfelgar ar adeg pan oedd cryn dipyn o gynnwrf yn Ewrob. Yr oedd ef a Thalhaiarn yn gwrthwynebu Cymdeithas Heddwch yn chwynn iawn.—*Gol.*

GWAWDWYR CYMDEITHAS HEDDWCH

Rhyfedd fel y mae gwawdwyr bychain bach Cymru yn ceisio dynwared gwawdwyr mwyaf mawr y brifddinas. Y maent yn rhedeg dros y llithiau priodol i'r achos o'r *Times* a'r *Morning Chronicle*, a thros y colectau a'r canonau priodol o'r weddi gyffredin; ac yna y maent yn ymsanteiddio, ac yn ymlanhau, ac yn ymgroesi, ac yn gostwng pen fel brwynen, ac yn gwneud wyneb hir a gwefus laes, ac yn plethu eu dwylo am eu cylla, ac yn ymduchan ac ymriddfan gan ddangos gwyn eu llygaid yn wyneb pob egniad i wella'r byd, ac yn enwedig os bydd yr egniad yn debyg o fod yn un lled effeithiol.

I

Cwyna ambell i Gymro druan yn dost iawn fod cefnogwyr Cymdeithas Heddwch yn gadael heibio ffordd Duw, yn troi o'r neilltu hen ffordd dda y wir ffydd gatholig, ac yn codi " *ffasiwn newydd* " i heddychu'r byd.

Hen ffordd dda dduwiol ambell i Gymro gwawdlyd ydyw troi'r gwydr gwin dair gwaith tair—ac weithiau, os bydd ei galon yn o lawen, naw gwaith naw—o amgylch ei ben, gan ffoeddio " *Hip, hip, hwre* " i'r fyddin a'r llynges ar ddiwedd y cinio mawr; a chynhyrfu awen boeth ferwedig rhyw fardd *tal haiarnaidd* cynddeiriog-wyllt i foli sain utgorn rhyfel, a bloedd y gad, a deffroad byw dengmyrdd o gleddyfau gloywon, a thrwst taran y fagnel angeuol, ac wyneb rhuddgoch y frwydr ardderchog, a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed, a'r pentrefydd ar dân, a griddfanau'r clwyfedigion, a'r gwragedd, a'r mamau, a'r rhianedd, a'r plant bach, yn llewygfeydd marwolaeth.

HEDDWCH A RHYFEL

Hen ffordd dda ffydd ambell i Gymro ydyw cynnull llu o gapteiniaid at ei gilydd i win-ystafell hen gastell caerog i ffrost-ganmol gorchestion ei gilydd, ac i chwerthin yn eu llewys am ben "*cowardiaid*" Cymdeithas Heddwch. Hen ffordd dda teulu y ffydd gatholig ydyw codi arch-ddeon corffol pasgedig i areithfa eglwys gadeiriol i bregethu, fel ei dadau gynt, "Llygad am lygad, a dant am ddant"; a'i arwain allan yn ei wisg wen laes yn niwedd y bregeth i gysegru, drwy weddi ac arddodiad dwylo apostolaidd, faner fawr newydd ag y mae ei hen hen-fodryb o Gastellygad am ei hestyn cyn ei marw yn anrheg i gatrrawd anfarwol ei gefnder o Sutilej, yn lle yr hen fanerau tyllog a rhwygedig a gipiwyd o law farw'r gelyn, i'w cadw mewn bythol gof, bob ochr i lun y groes, uwchben allor y cymun yn yr eglwys.

Hen ffordd ambell Gymro i heddychu'r byd ydyw lluosogi byddinoedd sefydlog yn amser Heddwch, ac ymladd ambell frwydr iawn fel un Waterloo er mwyn cael teneuo ychydig ar boblog-rwydd y byd; a chodi colofnau drudfawr i'r capteiniaid a leddir ar y maes, a rhoddi plasau ac etifeddiaethau a thâlwofrau i'r rhai a ddiangant adref yn fyw, a'u dyrchafu i feinciau uchaf y senedd-dai, a gosod gweinidogion mwyaf doniol y goron i ganmol eu dewrder anghymarol ac i esbonio rhagoriaeth medr a nerth ein milwyr ni ar eiddo byddinoedd ein cymdogion, a chael tywysogion tyn am eu pwnc—fel y duwiol Siôr y Trydydd a'i gynghorwr Pitt—i wawd-herio Buonaparte pan ymbiliai hwnnw am ryw gyngor er mwyn terfynu galanastra rhyfeloedd.

Hen ffordd dda y ffydd gatholig yw i'r fam-fedydd brynu dryll-degan bach, a phidog gloyw wrth ei flaen, i'w roi yn anrheg ar ŵyl ei fedydd

GWAWDWYR CYMDEITHAS HEDDWCH

i'w mab-bedydd bach yn ei bais gwta; ac y mae'r fam-fedydd dirion yn rhoddi'r dryll yn ei law fel arwydd o'i chyfamod wrth y bedyddfaen i ddysgu iddo " ymwrthod â rhodres a gor-wagedd y byd anwir hwn "; ac y mae ei fam yn addo tabwrdd a chleddyf iddo erbyn yr ŵyl nesaf am ei fedr bywiog yn ysgwyddo ac yn anelu'r dryll, ac yn chwarae'r bidog mor gyflym o gylch llygaid ei famaethod a'i chwiorydd; ac y mae'r fam a'r famaeth a'r fam-fedydd yn addo i'r plant y cânt fynd gyda hwy drennydd i'r ysgol wladol i weld yr athro'n dysgu " *fencing* " i'r plant, ac yn eu rhesu i adrodd areithiau milwraidd, ac i ganu'r " *march* " i'r frwydr.

Dyma rannau o'r *hen* ffordd dda i heddychu'r byd: ond, er gofid anhraethol i ffydd a duwioldeb ambell i Gymro, y mae Cymdeithas Heddwch yn rhyfygu gadael heibio yr hen ffordd dda grybwylledig ac yn codi i fyny ryw " ffasiwn newydd "; ac y mae'r ffasiwn newydd yn cymylu " gogoniantau " gorchestion milwraidd, yn dadlennu creulonderau a cholledion rhyfelgyrchoedd, yn atgoffa'r difrod a achosasant, a'r gwaed a dywalltasant, ac yn dangos ei bod yn llawn bryd i deyrnasoedd cred sefydlu llys teg i derfynu dadleuon gwladwriaethol drwy ymholiad ac ymchwiliad manwl a didwyll, a *barn bwyllog*, yn lle trwy rym arfau.

Y mae'r rhai sy'n dda ganddynt ryfel yn gweld, os try'r byd i lwybr newydd y " Frankfortiaid," y derfydd *crefft* rhyfel, ac y collir felly eu bri hwy: ac, yn wir, y mae crefftwyr y waywffon a'r cleddyf yn awr mewn trallod nid bychan, ac yn cymell pob Demetrius sy ganddynt i beri cynnwrf drwy bob dinas a gwlad; ond y mae'n

HEDDWCH A RHYFEL

ddifyr braidd eu gweld yn ymdyrru ynghyd, a'u clywed yn dweud yn gythryblus wrth ei gilydd:

“ Ha, wŷr, chwi a wyddoch mai oddi wrth yr elw hwn y mae ein golud ni; a chwi a welwch ac a glywch fel y mae'r Cobdeniaid yma, nid yn unig yn Frankfort, ond trwy Ewrob oll a thrwy America oll, a thros y byd oll, yn perswadio a throi llawer o bobl ymaith oddi wrth ein crefft fawr ni; a chwi a wyddoch hefyd y bydd yn enbyd inni ddyfod y rhan hon i ddirmyg: gan hynny, ymgynghreiriwn o blaid ein hen ran enwog ac annwyl, ymorchestwn i amddiffyn elw ein golud, safwn yn lewion dros fawrhydi ein duwies, llanwn ein gwydrau hyd yr ymyl, a llefwn am ddwy awr beth bynnag, Hip, hip, hwre, i Ddiana y cledd; ac yna, ar ôl *bumper* ei hiechyd, cydymfrysiwn i'w theml, a gostyngwn ar ein gliniau i'w haddoli.”

II

Ymddigrifa ambell Gymro i feddwl a sôn am ffolineb y bechgyn gweiniaid o Gymru a aethant i grwydro gyda Chymdeithas Heddwch ar draws y gwledydd i Germani “ ar ôl *Jack-y-lantern*.”

Nage, nage, nid meibion tangnefedd, ond enynwyr cynnen ydyw'r crwydriaid. Pleidwyr rhyfeloedd ydyw teulu *Jack-y-lantern*. Hwysydd wedi cael eu hudo i grwydro trwy laid, gwaed a thân, trwy bydewau a drysni, i gorsydd pob rhyw anhrefn a thlodi; a chawsant eu hudo i grwydro felly gan wib-dywyniadau hudol lanternau balchder, a gau-ogoniant, a budr-elw: ac y mae llawer gwlad hyfryd yn awr, o achos eu hynfydrwydd hwy, yn ymdrybaeddu yn eigion y pydew heb obaith ymwarded.

GWAWDWYR CYMDEITHAS HEDDWCH

Nid rhai o'r nos nac o'r tywyllwch ydyw Cymdeithas Heddwch; ond plant y goleuni ydynt, a phlant y dydd. Y maent yn annog ei gilydd i wyllo a bod yn sobr, ac i wrando ar lais ystyriaeth a phwyll. Y maent yn gloywi llygad myfyrdod, a ffydd i ddilyn lamp ysbrydoliaeth i ffordd tangnefedd; ac ymwelodd â hwy godiad haul dros fryn hyfryd y bumed bennod o Mathew, ac y maent am rodio yn ei oleuni. A rhaid i lywiawdwyr y ddaear, yn lle gwrando ar gorgwn rhyfel yn udo am ysglyfaeth—yn lle edrych ar grefftwyr rhyfel yn gwyllt-grafangu am obaith eu helw, droi oddi wrthynt ar unwaith, ar ôl llusern y gair, i lwybr esmwyth a diogel cyfiawnder a heddwch, onide rhuthr-dreiglant y byd, a hynny ar fyrder, dros geulannau difrod a gwastraff, a thros greigiau trais a therfysg i ddinistr anadferadwy.

III

Dirmyga ambell watwarwr wasanaeth rhai o'r cenhadau i Frankfort yn adrodd hanes egniadau y Gynhadledd i fagu ysbryd a thaenu egwyddorion tangnefedd. Ond gallwn sicrhau i'r gwatwarwyr mai nid i'r "muriau moelion," nac i finteioedd o watwarwyr dideimlad, hunanol a digrif, y bu rhai o'r cenhadau yn adrodd hanes Cymanfa Heddwch tua Gwreccsam, Llanbrynmair, Penant, Carno, Llanidloes, Llanerfyl, Aberhosan, Machynlleth, Aberystwyth, Talybont, Llanfair, Aberhavesp, Y Drefnewydd, Llanwddyn, Aberhonddu, Kendle, Merthyr, Aberdâr, Castell Nedd, Abertawe, Llanelli, Caerfyrddin, &c., &c., &c. Nage, nage, ond i *dyrfaoedd* lluosog, teimladwy ac ystyriol, wedi dwys astudio ac yn medru dirnad amcanion dyngarol Cymdeithasau Heddwch, ac yn penderfynu eu pleidio er maint y gwawd

HEDDWCH A RHYFEL

a'r rhwystrau: a phe buasai'r gwatwarwyr yn clywed brodyr cyfrifol o wahanol enwadau yn cefnogi achos Heddwch yn y lleoedd a enwyd, buasent yn deall ei bod yn llawn bryd i bethau annhymig fel hwy daflu eu gwatwargerdd heibio, a gostwng pen, a chau eu llygaid, a thewi. Y mae y byd oll yn gwybod yn burion paham y maent hwy yn udo ac yn estyn bys ar ôl Frankfortiaid tangnefedd.

IV

Yr oedd rhai o'r cenhadau i Frankfort wedi sylwi fod y *merched*, drwy rannau o'r Cyfandir, yn cael llawer mwy na'u rhan o ofalon a llafurwaith y meysydd: ac nid rhyfedd hynny, pan mae ymhell dros bedair mil o filoedd o *fechgyn* Ewrob ym mlodau gwrid a gwres eu nerth yn cael eu cynnal yn fras i segura a gloddesta dan yr esgus eu bod yn filwyr parod i ryfel. Yn lle gadael i'r merched aredig y tir, a chynaeafu ei gynnyrch, byddai'n weddeiddiach o lawer i'r milwyr segur hynny wneud eu cleddyfau yn sychau a'u gwaywffyn yn bladuriau; a dysgu amaethyddiaeth yn lle dysgu rhyfel.

Llwyr ofer fyddai i ni holi'r Cymro bach o Fangor pa faint o golled i deyrnasoedd Ewrob ydyw fod y miliynau a enwyd o'u deiliaid cryfaf yn cael eu bwyd a'u diod, a'u dillad a'u harfau, a'u tân a'u llety, a holl gysuron eu cynhaliaeth, nid am atgyweirio tŷ, na llong, na pheiriant; nac am amaethu gardd, na maes, na pherllan; nac am godi glo, na mŵn, na llechau; nid am drwsio ffyrdd, na chynaeafu ŷd, na nyddu gwlan, nac agor ffos, na gosod pedol, na llosgi calch, na gwneuthur cert, na phwytho dillad, nac unrhyw orchwyl o *elw* i gymdeithas, ond i anllad-orwedd,

GWAWDWYR CYMDEITHAS HEDDWCH

a segur-rodiana, ac i wneuthur drygioni. Ni fedd y Cymro na'i frodyr na phen na chalon at gyfrifon felly.

Tybier fod cynhaliaeth dyn cryf iachus am flwyddyn gron gyfan mewn segurdod milwraidd yn golled o ugain punt; byddai cadwraeth pum miliwn o gedyrn heini mewn segurdod felly yn golled o *gan miliwn* o bunnau! Ond beth waeth gan rai am golled *gwlad* os caiff eu tylwyth *hwy* dipyn o ryw ennill neu ddifyrrwch.

V

Y mae Cymro bach o Fangor yn mynd yn wyllt gynddeiriog o'i go' am inni ddigwydd sylwi y gwnâi Paulskirche, Frankfort, Senedd-dy mwy cyfleus na'r "New House of Commons," yn Llundain: ac yn ias ei gynddaredd y mae'n dannod i ni ryw hen "bengrwn" fu gynt ar hyd Cymru yn troi "ein heglwysi" yn *stablau*; ac yna y mae'n croch-weiddi uwch ein pen, "O ffei, ysbryd aflan, dos allan."

Yn awr ein holl amryfusedd, yr holl fai a wnaethom i gynhyrfu consuriaeth y Cymro oedd hysbysu fod Senedd tywysogion Germani wedi bod yn eistedd yn nheml St. Paul, yn Frankfort, a bod yno le cysurus i dros fil o Seneddwyr, ac i lawer mwy na hyn o edrychwyr, ac na chostiodd y lle hardd hwnnw ddim ond £25,000; ac y buasai yn dŷ llawer helaethach a hyfrytach i gynrychiolwyr Prydain na'u *New House*, ag sydd wedi costio dros ugain cymaint o arian. Dywedwn *eto* ei fod yn gywilydd, ac yn ddwbl cywilydd, "fod y *New House of Commons*, ar ôl yr holl draul a'r ymgynghori a'r cynllunio, yn rhy gynnwys i'r

HEDDWCH A RHYFEL

aelodau, ac yn rhy drymaidd iddynt allu clywed ei gilydd ynddo; a bod y galeri mor hynod o fach, ac mor hynod o anghyfleus i'r ymwelwyr."

VI

Haera'r Cymro y gwnaem ni'r byd yn goelcerth o'r naill ben i'r llall cyn pen deufis pe bai ar ein dwylo. Dyma awgrymiad annheg dros ben—awgrymiad brwnt o'r fath fryntaf—awgrymiad digon cas a brwnt i wneud mymryn o goelcerth pe baem ni mor boethlyd â'r Cymro.

Na, na, yn lle gwneud y byd yn goelcerth, yr ydym ni yn *dioddef* cryn lawer yn bur ddistaw: yr ydym yn gwasgu'n lled drwm ar wddf ein cydwybod, ac yn talu "Treth Eglwys" yn lle gwneud ein hardal yn goelcerth. Yr ydym yn talu treth arall bur drom yn ddigon distaw at wasanaeth y llan, ac at ryw lysoedd neu lannau *pell* heblaw hynny, yn lle gwneud coelcerth yn ein gwlad. Yr ydym yn talu treth drom iawn tuag at gynnal byddinoedd i segura, ac yn talu felly'n groes i'n calonau, rhag gwneuthur dim mewn un modd i ennyn coelcerth yn y deyrnas; ac eto i gyd y mae'r Cymro bach, sur, gwenwynllyd o Fangor yn cyhoeddi y gwnaem ni'r byd yn goelcerth cyn pen deufis pe medrem.

Nage, nage, nid nynt sydd am wneud y byd yn goelcerth. Yr ydym ni am chwilio pob sefydliad, a phrofi pob arferiad, wrth oleuni rheswm ac ysgrythur. Yr ydym am i bethau anghyfiawn, gorthrymus a cholledfawr gael eu symud o'r ffordd mewn modd pwylllog a thangnefeddus. Y dynion am goelcerth ydyw'r rhai sydd am amddiffyn sefydliadau gormesol â magnelau.

GWAWDWYR CYMDEITHAS HEDDWCH

Y mae'n wir ysmala gennym edrych ar erthyl ieuengaf y dilyniad apostolaidd yn ymwthio ymlaen i osod ei law ar ein pen er ceisio consurio'r "ysbryd aflan" allan ohonom. Yr ydym yn ofni fod ein "hysbryd aflan" yn un o rywogaeth ry gyndyn i fynd allan heb ebychiad gweddi well na'r eiddo ef. Y mae'n wir gas gennym weled rhyw *gyw* gormes bychan fel efe, a'i blu ar hanner tyfu, yn agor ac yn estyn ei big dros ochr ei nyth o dan aden ei fam i sôn am goelcerth a siartiaeth wrthym ni ar ôl ein holl gydymddwyn â'i deulu ysglyfaethgar ef.

Nage, nid nyni ydyw pobl y "*goelcerth*." Nid nyni yw pobl y drais a'r orthrech. Nid nyni ydyw y *physical force men*. Nid nyni ydyw'r terfysgwyr a'r Siartiaid. Nage, nage, ond siartiaid y goelcerth ydyw'r bobl sy'n hogi eu dichellion a'u doniau i ddyfeisio trais, ac yn cyflogi byddinoedd ag arian ein llafur ni i amddiffyn y drais a sefydlant. Dyna deulu'r "*goelcerth*." Dyna flaenfyddin y Siartiaid; ac y mae'n galed eu clywed yn dynodi pobl y dioddef a'r llonyddwch fel pobl y goelcerth. Dylai anfonedd-igeiddrwydd y Cymro ennyn coelcerth o euog-rwydd yn ei gydwybod, ond ni all deimlo. Dylai cywilydd godi'n fflam i'w wyneb, ond ni fedr wrido. Buasem ni am unwaith yn ceisio ennyn coelcerth yn ei gydwybod neu ei ymennydd ef; ond amhosibl ydyw gwneud hynny, oblegid ni fedd, druan, nac ymennydd na chydwybod.—*Rhagfyr*, 1850.

Codi Militia.

Y MAE gorchymyn wedi mynd allan i godi militia yn ddi-oed. Y niferoedd canlynol a ofynnir o wahanol siroedd Cymru:—Môn 226, Arfon 388, Meirion 176, Dinbych 432, Fflint 316, Maldwyn 312, Penfro 384, Caerfyrddin 486, Aberteifi 301, Maesyfed 119, Brycheiniog 286, a Morgannwg 1,086.

Y mae'n drueni o'r fath waethaf fod cymaint o sylw ac o amser ac o lafur ac o arian y wlad yn cael eu cysegru at beth mor afreidiol, ac o duedd mor niweidiol. Bydd y drefn osodedig o godi militia yn sicr o fod yn faich trwm ar y wlad, ac yn drallod nid bychan i'r dosbarth gorau o'i deiliaid. Nid oes dim modd llusgo rhyw bedwar ugain mil o ddynion llafurus yn nerth eu dyddiau oddi wrth eu teuluoedd a'u galwedigaethau i roddi mis o'u hamser bob blwyddyn tuag at ddysgu crefft rhyfel, heb i hynny fod yn golled drom i blwyfydd ac i siroedd. Darfu i'r drefn o godi militia fod yn golled o dros £29,000 mewn pymtheng mlynedd i un plwyf yn Llundain, sef plwyf Marylebone. Yn ôl hen gyfraith 1802, y mae gan ddyn tlawd a godir i'r militia hawl i fynnu gan ei blwyf hanner pris dyn yn ei le.

Y mae'n amhosibl i neb gyfrif na dirnad y golled a'r niwed a wna codi militia i'r wlad mewn ychydig flynyddoedd. Dylid apelio'n ddi-oed at y senedd newydd am ddiddymiad uniongyrchol o ddeddf y militia. Yn wir, yn wir, nid oes dim—dim yn y byd—yn gelw yn awr am godi militia ond blys a mympwy dynion ffôl, hunanol a nwyd-wyllt, hoffus o wastraff a rhodres, dynion ofnus o ledaeniad goleuni a phwyll a thangnefedd,

dynion awyddus i gael achlysur yn erbyn y werin orthrymedig, ac i gael mwynhau rhwysg a gloddest a segurddod ar draul yr ufudd, a'r diwyd, a'r gweithgar. Taer anogem bob Cymro ieuanc a godir trwy goelbren i ddysgu crefft rhyfel—er mwyn ei gyfeillion a'i geraint, er mwyn cadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a thuag at ddynion, er mwyn ei enw da a'i goffadwriaeth ar ôl i'w ddydd ddarfod—i ymdrechu ym mhob modd i dalu'r ddirwy, yn lle rhoddi nerth gorau ei gorff a'i feddwl i ddysgu'r gelfyddyd farbaraidd, echryslawn, ag sydd wedi bod o'r fath felltith i'r byd.—*Awst*, 1852.

Wellington.

YR ydym yn meddwl bod Lloegr wedi cysegru gormod o amser ac o feddwl, o siarad ac o ddawn—gormod o bapur ac inc, ac awen ac argraff—gormod o ager ac o goed, ac o farmor ac o ddillad galar—gormod o rwysg ac o drwst—a llawer gormod o arian y wlad, tuag at goffadwriaeth gorchestion milwraidd ei diweddar Faeslywydd.

Nid ydym yn cenfigennu wrth y teitlau, a'r urddau, a'r gwobrau a roddwyd iddo o bryd i bryd; ond yr ydym yn credu fod tuedd ddrwg nodedig mewn llawer o'r rhwysg, a'r draul, a'r drafferth, a'r utganu, a'r canmol, a'r brolio a fu yma ac acw mewn cysylltiad â'i angladd. Yr oedd yn ddyn o feddwl diwyd, bywiog, effro—o galon oer benderfynol—o lafur rheolaidd a difin; yn ddyn a fedrai lywodraethu ei flys a'i ysbryd yn lled dda, a dal yn weddol rhag ymchwyddo hyd holliad tan

wenau heulwen llwyddiant. Yr ydym yn credu y gwnaethai ffarmwr llwyddiannus, siopwr gofalus, neu farsiandīwr anturiaethus; y gwnaethai oruchwyliwr cyfarwydd, neu beirianydd medrus, neu esgob purion, pe buasid yn troi ei feddwl at hynny.

Ond cysegrwyd ef o'i febyd i ddysgu crefft rhyfel, a throdd ei grefft yn un dda iddo am dymor byr y byd yma. Bu yn offeryn dewr, diwyd a ffyddlon i gyflawni cynlluniau llywodraeth Lloegr drwy holl ddyddiau ei filwriaeth; ond y pwnc ydyw, a oedd y cynlluniau hynny yn rhai cyfiawn a buddiol a doeth?

Yr ydym yn credu nad oedd dim mwy o hawl gan fyddinoedd Siôr y Trydydd i ymyrryd â threfniadau Ffrainc yn amser yr hen " Ewythr " Napoleon nag a fyddai gan fyddinoedd Victoria yn awr i ymyrryd â mesurau ymerodrol Napoleon ei " Nai." Nid i Faeslywyddion, na Secretaries-at-War, na Paymasters of Forces, na recruiting Serjeants, na chysegrwyr *parchedig* banerau rhyfel; ond i gyfeillion heddwch yr ydys i ddiolch na buasai byddinoedd Lloegr yn awr yn cyflawni eu gorchestion milwraidd ar feysydd Ffrainc—i bleidwyr *erlidiedig* heddwch yr ydys i ddiolch na buasai dewr gapteiniaid Lloegr wedi ennyn fflamau goddeithiol tân rhyfel drwy holl deyrnas-oedd Ewrob. Ni allwn o gydwybod lai na chondemnio cynlluniau llywodraeth Lloegr yn nyddiau dechreuad a chynnydd " gogoniantau " Wellington fel cynlluniau yr ysbryd culaf, a'r nwydau barbareiddiaf—fel cynlluniau anwariaid cyfrwys-ddrwg dan *enw* pendeigion Cristnogaeth. Cysgrod Wellington holl alluoedd ei gorff a'i feddwl i gyflawni erchyllwaith y cynlluniau hynny. Aberthwyd myrddiynau o fywydau cryfaf Ewrob,

WELLINGTON

a thrysorau uwchlaw pob dirnadaeth, er mwyn eu dygiad i ben; a rhaid i'r byd deimlo'r canlyn- iadau arswydol am lawer o oesau.

Y mae llawer o ganmol wedi bod yn ddiweddar ar *grefyddoldeb* Wellington. Gobeithio iddo dderbyn trugaredd gan Dywysog y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai; ac iddo, fel yr ysgrifennid ar luman ei angladd, "farw yn yr Arglwydd." Ond am grefydd ei fywyd milwraidd ef, fel yr eiddo y nifer amlaf o'i gydgapteiniaid, yr ydym yn credu y buasai'n ddigon bodlon i'w chloi yng ngwaelod ei gist gartref pan fyddai'n gwisgo ei arfogaeth ac yn cychwyn i'r maes ac yn bloeddio i'r frwydr; ac yr ydym yn credu hefyd pe buasai galwad *sydyn* am ei grefydd, iddo'i chael fel *passport* i'w ddiogelu trwy borth marwolaeth, na buasai ei *Aide-de-Camp* cyflymaf ddim yn gallu ei chyrchu iddo mewn pryd: ac nid rhyw golled fechan, nid rhyw siomedigaeth ddibwys, ydyw i Gadfridog, na neb arall, fod heb *passport* crefydd i gael mynedfa i lysoedd llawnion teg a gloyw'r bydoedd dedwydd draw.

Am grefydd Wellington pan yng nghanol rhwysg trystfawr ei ogoniant, yr ydym yn ofni na buasai ddim yn gogwyddo'i glust am foment i wrando ar lais mwyneiddiaf Tywysog addfwyn y Tangnefedd pan oedd cadeirydd Senedd Lloegr yn cyhoeddi ei glod, a rhaglaw tywysogaidd Lloegr yn anfon iddo ffon Marshal ac urdd y Gardas. Cafodd lawer o glod a mawl a bri am ei ryfelgyrchoedd yn India, am ei ddewrder yn croesi'r Douro, am frwydrau Talavera a Busaco, am orchestion Ciudad, Rodrigo a Badajos, ac am fuddugoliaethau Salamanca, Vittoria a Waterloo; ond y mae adolygu *eto* i fod ar gyflafanau'r

dyddiau “ gonogeddus ” hynny. Enillodd Wellington gymeradwyaeth tywysogion ac arglwyddi ac offeiriaid ei wlad am ei fedr a'i ddewrder ar faes y gwaed; ond y mae tu draw i'r llen wlad well na Lloegr, a llys uwch na llys Lloegr, ac nid oes dim sicrwydd eto a gaiff y gorchestion milwr-aidd a grybwyllwyd gymeradwyaeth brenhinoedd ac offeiriaid—a Thywysog mawr y llys hwnnw, ond “ y dydd ” a ddengys hynny.—*Rhagfyr*, 1852.

Militia Meirion.

BU Colonel B. V. Derinzey yn ddiweddar, ar ddiwrnod glawog iawn, yng ngolwg Militia Meirion yn y Bala. Yr oedd y glaw mor gas fel y gorfu iddynt ymgadw *dan do* i *exercisio* o flaen Colonel Derinzey.

Yn ei araith, wrth ganmol Militia Meirion am *exercisio* mor wych, dywedodd y Colonel ar gyhoedd na allai lai na dynodi'r enwadau crefyddol a oeddynt wedi dadlau a deisyf am beidio â chodi militia yn adeg y fath “ *panic* ” di-sail a di-synnwyr—fel TEYRNFRADWYR. Dywediad y Colonel, yn ei iaith ei hun, oedd ei fod yn eu dynodi fel “ *traitors to their Queen and country.* ”

Yr oedd y fath ddywediad cyhoedd yn *libel* o'r fath dduaf ar eu cymeriad, ond yr oedd enaid cawraidd Talhaiarn yn tanio wrth ei ddarllen; a chyhoeddodd, yn ei iaith foneddigaidd arferol, y buasai'n dda ganddo “ ddyrnu ” 'r *babes of grace* ag oedd yn dysgu *twaddle* “ hen wŷydd y Peace Society ” i fechgyn Cymru: ac yr oedd Tal wedi cymryd trafferth i gyfansoddi pwt o rywbeth i Ysgrifennydd y Peace Society, ond awgrymodd

Golygydd y *Caernarvon Herald* yn bur dadol wrtho, "It won't do, Tal," a gwrthododd ei gyhoeddi.

Ni wyddom ni ddim yn sicr pwy ydyw Colonel Derinzey; ond gwyddom fod y rhai a ddifriodd ef fel "traitors to their Queen and country" mor ffyddlon i'w brenhines ac i'w gwlad ag ydyw yntau, ac na raid iddynt byth roddi'r gorau iddo ef nac i Dalhaiarn am foneddigeiddrwydd na dynoliaeth na Christnogaeth. Dichon y buasai crystal inni beidio â sôn am "*Gristnogaeth*" wrth ddynion mor heroaidd â hwy, o leiaf "ar hyn o bryd." Diamau gennym y galwant amdanom i egluro iddynt gyfiawnderau Cristnogaeth pan gaffont hwy "amser cyfaddas" i ystyried y fath bethau.

Yr ydym yn ofni, yn wir, na cheir dim heddwch yn y byd nes i ddynion fel Talhaiarn a Derinzey ddysgu ffrwyno'r "aelod bychan sy'n ffrostio pethau mawrion." Dichon y byddai'n ychydig o gymorth iddynt baratoi eu hareithiau milwrol nesaf ped astudent Iago iii. 6, a'r adnodau dilynol hefyd, os medrant ddyfod o hyd iddynt. —*Rhagfyr*, 1853.

Gofwy y Cnaf o Rwsia.

BERNIR fod dydd ei ofwy o'r diwedd wedi dyfod arno, yn ôl y proffwydoliaethau *Cymreig* a Seisnig, Gwyddelig ac Ysgotaidd, Mahometanaidd a Phabaidd a Hindwaidd a gerddasant o'r blaen amdano drwy yr *wythnosau* diwethaf.

Meddylir bod gwaddodion ffiolau dial ar gael eu tywallt arno. Y mae ei gorff cryf yn crymu'n

HEDDWCH A RHYFEL

gyflym, ac y mae ei brofiad yn fynych tan gwmwl. Y mae saith neu wyth o'i brif gadlywyddion wedi cael eu hanafu yn y brwydrau diweddar ar lan y Danube. Bydd yn anodd iddo gael eraill yn eu lle. Y mae ei fyddinoedd yn gorfod cilio'n ôl ym mhob man. Diamau y dinistrir ei holl amddiffynfeydd a'i longau rhyfel. Y mae pob lle i gredu y caiff ei ddal a'i rwymo fel "bwystfil diffaith," a'i alltudio i ryw "uffern forawl" fach nes y delo'r dydd i'w gladdu—a'i "wyneb i lawr," i dremio ar yr uffern fawr ddiwaelod sydd yn ei aros; a gobeithir hefyd y rhwymir ei *feibion* a'i wŷrion yn yr un caethiwed.

Diangodd yn rhy hir drwy gyfrwystra basaidd ei ddichellion. Cafodd lonydd i aflonyddu ar gymdeithas am ormod o amser. Peth rhyfedd oedd i'w gymdogion geirwir a gonest, di-enllib a digynnen ei oddef cyhyd. Ei gybydd-dod a'i gnaf-eidd-dra *ef*, ei draha a'i ystyfnigrwydd *ef* oedd achos, *unig* achos, a *holl* achos y rhyfel presennol. Nid oes *dim* o'r bai yn gorwedd wrth ddrws galluoedd eraill Ewrob. Y mae holl hanes eu gohebu *cyfrinachol*, a'u cynadleddau tywysogaidd, a'u sefydliadau milwraidd yn profi'n eglur eu bod hwy am degwch, ac am ryddid, ac am dangnefedd. Y rhyfel presennol â Rwsia ydyw'r cysonaf, y cyfiawnaf, yr enwocaf a'r duwiolaf a luniaethwyd erioed. Yr oedd yn hanfodol angenrheidiol ac yn hollol anocheladwy. Y mae deddf ac efengyl yn ei gyfiawnhau, a dyngarwch a duwioldeb yn ei gymeradwyo.

Y mae llywodraethau addfwyn, heddychlon a di-ormes—llywodraethau rhyddfrydig, di-genfigen a chrefyddol Turkey, ac Awstria, a Phrwsia, a Ffrainc, a Lloegr wedi ymgynghreirio yn y dull mwyaf pwyllog a diddichell i ddwyn ymlaen y

rhyfel yma. Y mae amddiffynwyr y rhyfel trwy Gymru a Lloegr wedi dangos yr ysbryd mwyaf diragfarn a diduedd drwy eu hysgrifau, eu hareithiau a'u hymddiddanion. Y maent wedi *gweddio* llawer am fendith y nefoedd ar arfau eu milwriaeth. Enw mawr y Goruchaf, ordinhadau'r Gwardedwr a thangnefedd yr Ysbryd sydd yn eu cymell. Amddiffyniad iawnderau dynoliaeth, a rhyddid cydwybod, ac adferiad annibyniaeth Poland, a Hwngari, a'r Eidal, a thaleithiau gorthrymedig eraill, sydd yn eu cynhyrfu i'r ymdrech. Y maent o *un galon* ac o un ysbryd yn dwyn ymlaen gynlluniau ac amcanion eu milwriaeth, ac y maent yn sicr o'i therfynu mewn cyfiawnder ac anrhydedd.

Gŵyr pawb—ond “ ynfydion penweiniaid Cymdeithas Heddwch ”—nad oes yr un ffordd *well* na *rhatach* i derfynu cynhennau gwladol, a dadleuon crefyddau seneddol na thrwy *fin y cledd*, a *thân y fagnel*. Y mae'r cleddyf wedi cael llawer o waith i derfynu dadleuon yn y can mlynedd diwethaf, ac y mae bob amser yn eu terfynu yn y dull tecaf a buddiolaf; a buasai'n bechod ysgeler i feddwl am unrhyw ffordd arall i derfynu'r ddadl fawr bresennol, gan fod y cnaf cynddeiriog o Rwsia wedi cyflawni'r fath ddrygau drwy ei oes. Buasai terfynu'r ddadl trwy *gyflafareddiad* yn lle trwy *ryfel* yn beth hollol groes i'r Testament Newydd ac i'r holl BROFFWYDOLIAETHAU.

Cysur mawr dros ben ydyw fod y rhai sydd wedi ymgynghreirio yn awr i gosbi'r hen anrheithiwr yn rhai mor gall ac mor addfwyn, mor deg ac mor unfrydig. Y peth rhyfeddaf i ni o'r cyfan ydyw fod y cnaf barbaraidd wedi tyfu mor *ddrwg* yng nghanol cymdogion mor *dda*.

HEDDWCH A RHYFEL

Ond daeth dydd gofwy y cnaf melltigedig o'r diwedd. Y mae uffern oddi tanodd, ar ôl hir ymgynhyrfu o'i achos, yn agor ei safn amdano. Lledir bellach holl "chwain" ffeiriau mawrion Novgorod, a llosgir y coed a'r cychod a'r barilau tår drwy holl borthladdoedd y *Gulfs of Finland* a Bothnia; ac y mae sôn hefyd am anfon fflaglongau Lloegr tua'r Môr Gwyn, a chonglau pellaf ymerodraeth Rwsia. Y mae gweledyddion llygatgraff y proffwydoliaethau, mesurwyr manwlygyfiawn dialedd y ffiolau, yn barnu y bydd y byd yn "addfed" i dderbyn egwyddorion "annwyl" Cymdeithas Heddwch ar ôl i ysgubell rhyfel gael ysgubo gwledydd Ewrob ac Asia yn iawn am yr *unwaith* yma; a rhaid eu bod yn dyfalu'n gywir, oblegid y mae llysoedd Ewrob i gyd oll, *ond* llys y cnaf o Rwsia—y mae'r penaduriaid a'u cenhadon, y maeslywyddion a'r môr-lywyddion—mewn gair, y mae pawb oll, *ond* yr un cnaf satanaidd hwn, yn berffaith lân a di-fai *eisys*; ac ar ôl i'r rhai glân a di-fai dafu'r cnaf cythreulig i ystlysau'r ffos, bydd holl benaethiaid Ewrob *wedi hynny* yn barod i droi eu cleddyfau'n sychau ac i derfynu eu dadleuon drwy gynghorion pwyll ac mewn ysbryd tangnefedd.—*Gorffennaf*, 1854.

Y Rhyfel.

Y MAE holl helynt y rhyfel ofnadwy presennol, o'i gychwyniad hyd yma—ei holl helynt ar y maes, ar y môr ac yn y cyngor—yn profi i'n meddwl ni yn fwyfwy eglur o hyd ei fod yn rhyfel o'r un ansawdd ac egwyddorion â hen ryfeloedd erchyllaf ein tadau. Y mae'n ddigon eglur

DUWIAU RHYFEL TALHAIARN

bellach ei fod yn rhyfel o'r un ach a gwaedoliaeth â'r *hen* ryfeloedd ag y mae pawb o'r diwedd yn eu condemnio. Y mae barn Cobdeniaid dyddiau Siôr y Trydydd am ryfeloedd eu hamserau hwy wedi cael ei dwyn erbyn heddiw i fuddugoliaeth, ac y mae dydd buddugoliaeth barn Cobdeniaid y dyddiau hyn am y rhyfel presennol yn cyflym agosáu. Y mae holl elfennau cawl y ryfeloedd gynt yn poeth ymweithio drwy holl helynt y rhyfel presennol. Y mae elfennau holl gawl a holl gelwydd, holl genfigen a holl gybydd-dod, holl anghysonderau a holl anghyfiawnderau, holl gamddarluniadau a holl greulonderau, holl ddialgarwch a holl ddylni, holl ddifrod a holl wastraff, holl frad a holl gynllwyn, holl wag-ymffrost a holl rith-grefydd, holl "uchel-gyfrinach" a holl "santaidd-gynghreiriaeth" yr *hen* ryfeloedd ynfytaf gynt i'w canfod yn amlwg yn rhediad hanes y rhyfel presennol, ac y mae yr un *effeithiau* andwyol yn *sicr* o ddilyn.—*Awst*, 1854.

Duwiau Rhyfel Talhaiarn.

FEL hyn yr anoga Tal ei "dear delightful Dragon," Aled o Fôn, i weddio ar MARS a BELLONA (duw a duwies ryfeloedd y beirdd paganaidd) wrth derfynu ei lythyr diweddar at Aled yn y *Caernarvon Herald*:

You might also have called upon Mars and Bellona with a petition praying that they would assist Right and Civilization in thrashing despotism and sanctionious humbug. You know, Dragon, that you and I never conceal our regard for our redcoats and blue jackets, in spite of the soft cooings of Quakers, vegetarians, teetotalers, and other twaddlers. *Vive la guerre,*

HEDDWCH A RHYFEL

et vive l' Angleterre, and I may as well conclude with saying, Long life to everything, and everybody. Receive the assurance of my distinguished consideration, and be happy. Yours ever,—TALHAIARN.

Byddai'n burion peth i Tal neu Aled, gan eu bod mor hoff o redcoats a blue jackets Lloegr, i bwylllog sobr esbonio inni, Pa bryd ac ym mha le y darfu i "Right a Civilization" ddefnyddio rhyfel i "thrashio despotism a sanctimonious humbug?"

Y mae Tal yn hoff wallgofus o wawdio egniadau cyfeillion heddwch fel "sanctimonious humbug"; ac y mae ef a'i gymdeithion, yn enwedig ar ôl y brwydrau gwaedlyd a'r buddugoliaethau "*glorious*" tua Sebastopol, yn fyw iawn i weiddi "*Vive la guerre*"—"Byw fyddo'r rhyfel." Pe buasai gennym ni ddim serch at *redcoats* rhyfel buasem yn hoffi gweld Tal ac Aled yn eu cotiau cochion, ar ôl cinio da, yn dringo tyle'r Alma, gan ysgwyd eu gwaywffyn tuag at ffroenau magnelau Rwsia, yng ngwres y dydd a thua'r ugeinfed o Fedi. Dichon y buasent fwy wrth eu bodd yno nag yn eu *blue jackets* yn rhwyfo'u cychod ar draeth y Môr Du, gogyfer â Varna, yn nyddiau nerth y cholera yno.

Heb sôn dim yn awr am na synnwyr na chrefydd y bobl sy'n medru gweiddi "*Vive la guerre*," rhaid inni addef bod ein barn yn mynd yn is is am eu dynoliaeth a'u gwladgarwch. Nid y pennau poethion sydd yn goganu "Quakers, teetotalers, and other twaddlers," gan grochfloeddio "Byw fyddo rhyfel a byw fyddo Lloegr," ydyw'r bobl gallaf eu ffordd am fywyd Lloegr. Na,—y mae'r bobl sy'n gweiddi "Trenge wnelo rhyfel" yn llawn mor wresog â Thalharn am weiddi "Byw fyddo Lloegr."—*Hydref*, 1854.

Y Methodistiaid a'r Rhyfel.

YNG Nghymdeithasfa Chwarterol Trefnyddion Calfinaidd Gogledd Cymru, a gynhaliwyd yn y Drefnewydd Rhagfyr 6, 7, 8, cytunwyd yn unfrydig ar bedwar o benderfyniadau gyda golwg ar y rhyfel:

Yn y *cyntaf* cyhoeddant eu barn fod gweinidogion ei Mawrhydi wedi gwneud eu gorau i atal y rhyfel, a hod doethineb eu dull yn ei ddwyn ymlaen yn teilyngu ymddiried. Os ydyw'r Cyfundeb yng Ngogledd Cymru yn "unfrydig" o'r farn a'r teimlad hynny, yr oedd yn deg iddynt gofnodi hynny fel y gwnaethpwyd: ond y mae llaweroedd yn holl gyfundebau gwladol ac eglwysig y deyrnas yn barnu'n wahanol, sef y gallasai gweinidogion Lloegr wneuthur mwy tuag at osgoi'r rhyfel, ac y gallasant hefyd amlygu mwy o "ddoethineb" yn ei ddygiad ymlaen.

Yn yr *ail* y maent yn amlygu eu cymeradwyaeth o'r drysorfa wladgarol o elusen-roddion i weddwon ac amddifaid lladdedigion y rhyfel. Yr ydym ninnau yn diffuant gydlawenhau â hwy yn lluosogiad y cyfraniadau i'r drysorfa wladgarol; ac yr ydym yn cydsynio â'r cwbl o'r ail benderfyniad ond un hanner dywediad, sef bod ein milwyr lladdedig wedi syrthio wrth "*amddiffyn eu gwlad.*" Rhy brin y mae'r darn dywediad hynny'n wir. Buasai dweud eu bod wedi syrthio wrth amddiffyn Turkey bell yn rhywbeth tebycach i fod yn wirionedd. Darfu iddynt syrthio *nid* ar dir eu gwlad—nid ar lannau Dyfi na Dee, na Menai na Mersey—nage; ond ar lannau pell y Môr Du tymhestlog. Syrthiasant *nid* wrth amddiffyn eu Haberdaugleddau eu

hunain, ond wrth geisio dryllio Aberdaugleddyf y gelyn. Syrthiasant nid wrth ymdrechu i amddiffyn eu broydd rhag ymosodiadau'r anrheithiwr, ond syrthiasant draw draw yng nglynnoedd yr Alma a'r Inkerman wrth anrheithio broydd y Crimeaid.

Yn eu *trydydd* penderfyniad y mae'r Gymdeithasfa'n di-arddel pob cysylltiad â "syniadau annoethion," y sy'n beio ymddygiadau'r llywodraeth yn achos y rhyfel presennol. Yr oedd hyn yn lled naturiol iddynt, os ydyw'r cyfundeb yn "unfrydig" gymeradwyo'r rhyfel yn achlysuron ei gychwyniad, a threfn ei ddygiad ymlaen. Ond yr ydym ni 'n barnu fod y llywodraethau *gorau* yn ffaeledig, ac mai un o brif rwymedigaethau pob dinesydd da ydyw ceisio ffurfio barn gydwybodol am weinyddiadau llywodraeth ei wlad, ac y *dylai* feio yr hyn a farno'n feiadwy, a chanmol yr hyn a farno'n ganmoladwy.

Yn y *pedwerydd* y maent yn annog yr eglwysi i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus i weddio am nawdd y "Brenin mawr" i'n gwlad ac i'n byddinoedd ar dir ac ar fôr. Nid oes gennym ddim yn erbyn y cyngor yma, ond yn unig y buasai'n llawnach—ac yn debycach i gynghorion Crist—pe buasant yn annog yr eglwysi i weddio hefyd dros y "GELYNION."

Y mae gennym barch calon i'n brodyr y Trefnyddion am eu hegñiadau diffino yn achos *addysg*, am eu cydweithrediad boneddigaidd o blaid rhyddid crefyddol, am eu hardystiadau cryfion yn erbyn gormes eglwysig eu gwlad, ac am eu sêl cyson gyda disgyblaeth efengylaidd: ond yr ydym yn gofidio oherwydd amddiffyniad diweddar eu "Cymdeithasfa" o'r nwydau *rhyfel* sy'n awr yn ymfflamio drwy'r wlad. Y mae ysbryd rhyfel-

Y METHODISTIAID A'R RHYFEL

gar ein gwlad yn awr yn ymferwi drwyddi yn y modd cynddeiriocaf. Y mae eu hamddiffyniad hwy ohono un o fawr ddylanwad; ond yr ydym yn ofni ei fod yn dylanwadu'n groes i ewyllys ein Hathro mawr fu'n pregethu "ar y mynydd."

Yr ydym yn credu fod rhyw "*certain circumstances*" wedi eu *gwasgu* neu eu *hudo* mewn awr wan, brysur, gynhyrfus i roddi eu llais o blaid y rhyfel; ond yr ydym yn hyderus am gorff y Trefnyddion na all yr un gau-lewych eu hudo na'r un dymestl eu chwythu *hwy* yn rhyw bell iawn oddi wrth ffordd tangnefedd yr efengyl. Ond gan fod y fath *amrywiaeth* barnau yn ymferwi drwy'r wlad gyda golwg ar y rhyfel,—ar achlysuron ei gychwyniad a threfn ei ddygiad ymlaen; a chan fod y farn bwysfawr y gallesid ei hosgoi yn cryfhau o hyd, buasai'n dda iawn gennym pe buasai Cymdeithasfa ein brodyr y Trefnyddion yn ei adael yn "open question"—yn bwnc agored—gan adael perffaith ryddid i gymdeithasau ac aelodau eu cyfundeib fynegi eu barn yn ei gylch yn ôl argyhoeddiad eu calonau. Er hynny, ni buasem ni ddim byth yn cyfeirio at eu "Penderfyniadau" oni buasai eu bod yn dylanwadu'n bellach na chylchoedd eu cyfundeib hwy. Y maent yn dylanwadu yn llydan ac yn drwm, ac yr ydym yn ofni'n fawr eu bod yn dylanwadu er *drwg*.

1. Y maent, er mewn iaith dyner, yn rhoddi ergyd trwm i'r rhai sydd mewn modd pwylllog o waelod eu cydwybodau wedi "siarad ac ysgrifennu yn erbyn y rhyfel."

2. Y maent yn rhoddi cefnogiad cryf i'r pendefigion uchelfrydig, erlidgar a nwydwyllt, sydd wedi gwneud ac yn gwneud eu gorau yn y dull

mwyaf trahaus ac athroddgar i ddiraddio Cymdeithas Heddwch.

3. Y maent yn ategu'r cam-ddarluniadau echrhydus a ddyfal ledaenwyd drwy'r deyrnas gyda golwg ar holl helynt y rhyfel.

4. Y maent wedi cynorthwyo i fagu drygau echryslon teimladau rhyfelgar drwy holl gyrrau'r Dywysogaeth.

5. Y maent yn dirgymell ac yn ysbarduno gweinidogion y llywodraeth i ryfygus ymwithio ymlaen ar ffordd ddrwg.—*Ionawr*, 1855.

Ymweliad Victoria â Ffrainc.

UN o bynciau mwyaf newyddiaduron Lloegr yn y dyddiau hyn ydyw'r lles llydan a ddeillia i ddeiliaid Ffrainc a Lloegr oddi wrth ymweliad ein Brenhines â Ffrainc. Y maent yn rhesymu'n ardderchog y bydd i'r boneddigeiddrwydd a'r moesau da a ddangosodd hi a'i phriod drwy holl gylchoedd eu hymdaith yno, ac y bydd i'r cusanau a dderbyniodd ar ei dwyrudd gan Ymerawdwr Ffrainc, ynghyd â phob croeso arall a dderbyniasant yno, effeithio'n dda ar eu hysbrydoedd tywysogaidd hwy, ac ar ysbrydoedd eu deiliaid hefyd. . . Yr ydym yn credu o'n calon pe buasai chwarter yr anfoneddigeiddrwydd a amlygodd Lloegr tuag at Rwsia o fewn cylch y ddwy flynedd olaf yn cael ei amlygu tuag at Ffrainc, y buasai Ffrainc a Lloegr ymhell cyn hyn yng nghanol cynddaredd a difrod a galanastra y rhyfel erchyllaf yn erbyn ei gilydd, ar dir ac ar fôr. . .

Ni byddai fawr i bobl Lloegr ystyried mai plant Adda sy'n cyfarfod tua Downing-street, mai plant Adda sy'n croes-ddadlau yn hen gapel newydd Sant Steffan, mai plant Adda sy'n gosod geiriau wrth ei gilydd yn ein Printing-House Squares, mai plant Adda sy'n byw ac yn dawnsio yn llysoedd Napoleon o Ffrainc, ac mai plant yr un Adda sy'n byw yn llysoedd Alexander o Rwsia. Ni byddai fawr i bobl Lloegr—i *ddiwinyddion* a *philosophyddion* Lloegr, beth bynnag—ddeall bellach y gwna'r boneddigeiddrwydd, a'r dyn-garwch, a'r cymwynasgarwch, a'r lletygarwch, a'r dweud y gwir mewn cariad, a'r cydweithredu cyfeillgar i noddi celfyddyd a rhinwedd, a'r bowio, a'r ysgwyd dwylo, a'r " cusanu dwyrudd," a'r cydfarchogaeth, a'r cydymrodio, a'r cydwledda mewn serch a llawenydd y sy'n effeithio'n dda ar un llys effeithio'n dda ar y llys arall hefyd. —*Hydref*, 1855.

Ffrainc a Lloegr yn Arglwyddesau'r Byd.

GAN fod Ffrainc a Lloegr yn *awr* mor *gydunol*, y mae eu newyddiaduron mwyaf cymedrol yn hyf ymffrostio mai iddynt hwy y perthyna arglwyddiaeth y byd. Eu syniad ydyw fod rhagluniaeth fawr y nef yn eu hordeinio hwy i fod yn *gyd*-arglwyddesau'r byd, ac yn ymddiried iddynt ei *gyd*-arglwyddiaeth. Eu bost, ym meddwdod eu balchder a'u barbariaeth, ydyw fod *Fate* yn rhoddi iddynt hwy " *the joint-supremacy of the world.*"

HEDDWCH A RHYFEL

Dylai bob Prydeiniwr gonest ardystio yn erbyn honiadau y fath ymffrost, yn erbyn rhyfyg y fath ffolineb, yn erbyn gwallgofrwydd y fath falchder. Y mae llysoedd Lloegr a Ffrainc yn ceisio dal i haeru fod Pedr Fawr, neu Catrin, neu Nicholas, neu rywun—rywbryd, yn rhywle yn Rwsia—wedi dweud neu ysgrifennu, drwy ei gwsg neu drwy ei ddeffro, pan yn feddw neu pan yn sobr, mai *Rwsia oedd i fod yn arglwyddes y byd*. Os dywedwyd hynny gan rywun rywdro yn Rwsia, dywedwyd peth dwl iawn yno; ond rhoddwn her i bleidwyr y rhyfel presennol ddangos pa bryd y darfu i neb yn Rwsia ymffrostio mor rhyfygus ac mor goelgrefyddol ag y mae Ffrainc a Lloegr yn ymffrostio'n awr wrth gyhoeddi mor ddigywilydd mai iddynt hwy y perthyn *joint-supremacy* y byd. Y mae eu brol anghyfiawn yn *insult* i holl deyrnasoedd y ddaear.

Yr ydym yn gobeithio fod pobl decach a challach yn Rwsia, ie, ac ym Mhrwsia ac Awstria—heb sôn dim am America a gwledydd newyddion y byd—na'r bobl sydd yn awr yn Ffrainc a Lloegr yn bostio eu *joint-supremacy*. Os ydyw pobl Rwsia mor annheg ag ydyw bostwyr beilchion, barbaraid Ffrainc a Lloegr, gall yr oes bresennol ganu'n iach i dangnefedd a ffyniant teyrnasoedd Ewrob.—*Hydref, 1855.*

Y Weddi Fawr.

[Fe gyfansoddwyd hon gan S.R. i ateb "Gwladgarwr," ar ôl i S.R. ymosod yn ysgubol ar orchymyn Victoria am ddydd o weddi, pan ddywedasai S.R., "Yr ydym yn gorfod credu . . . fod ein gweddiau yn ddrewdod yn ffroenau y nefoedd, yn ffeidd-dra yng ngolwg yr Arglwydd." Fe gyhoeddwyd y weddi ym mis Gorffennaf, 1854.]

O ARGLWYDD Y LLUOEDD, gwena ar dy weision ag ydynt yn awr wedi ymarfogi ac ymfyddino at waith angau. Anadla i'w heneidiau, O Dduw ein rhyfeloedd, wir ysbryd eu galwedigaeth. Caniatâ iddynt anghofio dy hen air "Na ladd," a gollwng dros gof y gorchymyn diweddarach "Cerwch eich gelynion."

Gwyddost, O Dduw Hollwybodol, nad yw y dyddiau hyn ddim yn amser cyfaddas i gydsynio â deddfau efengyl dy Fab Iesu. Gwyddost na ddaeth yr amser eto i bregethu egwyddorion cariad a heddwch. Arfoga ein milwyr â syniadau mwy gweddus i'w gorchwylion presennol. Llanw hwy ag ysbryd rhyfel. Ennyn fflamau dial yn eu mynwesau. Calonoga hwy at waith difrod a dinistr. Boed iddynt yn dy nerth di allu trywanu y gelyn a'i fathru tan draed. Dilyned yr haint a'r newyn holl orchestion eu hymdaith, fel y nycher nerthoedd holl dir y gelyn. Cyfarwydda di eu gwaywffyn a'u pelenni at eisteddfa bywyd, fel y gallont fedi ar frys, ac mewn gogoniant, gynhaeaf marwolaeth.

HEDDWCH A RHYFEL

Gwyddost, O Dduw Santeiddiaf, fod ein gelynion barbaraid, llofruddiog yn haeddu damnedu aeth uffern, a nertha ein milwyr i'w hanfon o ffordd ar unwaith i'r lle nad yw eu pryf yn maru na'u tân yn diffodd.

Bydd di, O Iôr ein tarian, yr hwn wyt y ddoeth o galon, yn wŷr o gyngor i'n maeslywyddion a'n môrlywyddion. Bydd yn eu canol pan y tynnu eu cynlluniau i ddrysu a darostwng gelyn, a saf ar eu deheulaw hefyd trwy oriantanlyd yr orchest ar uchelfannau y maes. Bendithia ein cynlluniau a'n cynllwynion. Gwna yn rasol ar gyfrwyster eu trefniadau ac a ddewrder eu hymosodiadau. Tro atynt honerthoedd celfyddyd a gwybodaeth, er mwyn gwneuthur eu rhuthrgyrchoedd yn effeithiol. Llwydda eu milwriaeth er mwyn dinistrio holl amddiffynfeydd y gelyn ac er mwyn dihysbyddu eu holl gyfnerthoedd. Galluoga hwy i'w daro fel na chyfodo mwy.

Ymladd drosom y waith hon, O Dduw ein byddinoedd, a dyro i ni fuddugoliaeth fel y mol-iannwn dosturiaethau dy drugaredd, a chyfiawnder dy ddialedd, drwy haeddedigaethau marwolaing dy annwyl Fab, ein Pryniawdwr. Amen.

PEDAIR NOFEL GYMRAEG.

E. Tegla Davies: GWR PEN Y BRYN

Gyda Deg o Ddarluniau. 230 td. Lliain, 3s. 6d.

"Stori fyw, wreiddiol, gyffrous a hollol ar ei phen ei hun."—*Y Tyst*.

"This is a novel to read and to keep."

—*South Wales News*.

W. D. Owen: MADAM WEN

Rhamant dlos a chynhyrfus. *Ail argraffiad*.
188 td. Lliain, 3s. 6d.

"Y mae pob pennod o *Madam Wen* yn gymhleth o antur, rhyfyg, gwrhydri a dirgelwch."—*Y Llenor*.

"Saif *Madam Wen* yn arwres o'r dechrau i'r diwedd, a rhyw gyfaredd rhyfedd yn dilyn ei holl rawd. . . Dyma stori fyw o'r dechrau i'r diwedd, swynir ni gan symudiadau lledrith *Madam Wen*, a denir ni ymlaen gan awydd am agoriad i ddirgelwch hudol yr hanes. *Dyma lyfr a ddarllenir gydag afiaith*."—MR. E. MORGAN HUMPHREYS yn *Y Genedl Gymreig*.

T. Gwynn Jones: LONA

Lliain, 2s. 6d.

"*Lona* is almost unique in Welsh. It is a love story, a romance, a perfectly constructed best seller which ought to create a furore in Wales and go through a dozen editions."—MR. SAUNDERS LEWIS.

"Darllenir *Lona* gydag awch o'r dechrau i'r diwedd. Gwneuthum hynny fy hun. Stori rwydd, yn llawn o ddigwyddiadau cyffrous a helyntion i'ch cadw'n effro."—MR. E. MORGAN HUMPHREYS.

Kate Roberts: DEIAN A LOLI

Gyda Darluniau. Lliain Ystwyth, 2s. 6d.
Byrddau, 3s.

"Un o'r llyfrau plant gorau a gafwyd ers blynyddoedd yw *Deian a Loli*. Tri swllt yw ei bris, ac y mae hwnnw'n bris isel iawn am lyfr mor wych."—*Y Faner*.

"Hanes swynol dau efell sydd yma. Y mae'r awdures yn deall plant i'r dim, ac y mae'r stori yn naturiol ac yn debyg i fywyd."—*Y Llenor*.

I'w cael trwy'r Llyfrwerthwyr ym mhobman.

HUGHES A'I FAB, WRECSAM.

hunain, ond wrth geisio dryllio Aberdaugleddyf y gelyn. Syrthiasant nid wrth ymdrechu i amddiffyn eu broydd rhag ymosodiadau'r anrheithiwr, ond syrthiasant draw draw yng nglynnoedd yr Alma a'r Inkerman wrth anrheithio broydd y Crimeaid.

Yn eu *trydydd* penderfyniad y mae'r Gymdeithasfa'n di-arddel pob cysylltiad â "syniadau annoethion," y sy'n beio ymddygiadau'r llywodraeth yn achos y rhyfel presennol. Yr oedd hyn yn lled naturiol iddynt, os ydyw'r cyfundeb yn "unfrydig" gymeradwyo'r rhyfel yn achlysuron ei gychwyniad, a threfn ei ddygiad ymlaen. Ond yr ydym ni 'n barnu fod y llywodraethau *gorau* yn ffaeledig, ac mai un o brif rwymedigaethau pob dinesydd da ydyw ceisio ffurfio barn gydwybodol am weinyddiadau llywodraeth ei wlad, ac y *dylai* feio yr hyn a farno'n feiadwy, a chanmol yr hyn a farno'n ganmoladwy.

Yn y *pedwerydd* y maent yn annog yr eglwysi i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus i weddio am nawdd y "Brenin mawr" i'n gwlad ac i'n byddinoedd ar dir ac ar fôr. Nid oes gennym ddim yn erbyn y cyzgor yma, ond yn unig y buasai'n llawnach—ac yn debycach i gynghorion Crist—pe buasant yn annog yr eglwysi i weddio hefyd dros y "GELYNION."

Y mae gennym barch calon i'n brodyr y Trefnyddion am eu hegñiadau diflino yn achos *addysg*, am eu cydweithrediad boneddigaidd o blaid rhyddid crefyddol, am eu hardystiadau cryfion yn erbyn gormes eglwysig eu gwlad, ac am eu sêl cyson gyda disgyblaeth efengylaidd: ond yr ydym yn gofidio oherwydd amddiffyniad diweddar eu "Cymdeithasfa" o'r nwydau *rhyfel* sy'n awr yn ymfflamio drwy'r wlad. Y mae ysbryd rhyfel-

gar ein gwlad yn awr yn ymferwi drwyddi yn y modd cynddeiriocaf. Y mae eu hamddiffyniad hwy ohono un o fawr ddylanwad; ond yr ydym yn ofni ei fod yn dylanwadu'n groes i ewyllys ein Hathro mawr fu'n pregethu "ar y mynydd."

Yr ydym yn credu fod rhyw "*certain circumstances*" wedi eu *gwasgu* neu eu *hudo* mewn awr wan, brysur, gynhyrfus i roddi eu llais o blaid y rhyfel; ond yr ydym yn hyderus am gorff y Trefnyddion na all yr un gau-lewych eu hudo na'r un dymestl eu chwythu *hwy* yn rhyw bell iawn oddi wrth ffordd tangnefedd yr efengyl. Ond gan fod y fath *amrywiaeth* barnau yn ymferwi drwy'r wlad gyda golwg ar y rhyfel,—ar achlysuron ei gychwyniad a threfn ei ddygiad ymlaen; a chan fod y farn bwysfawr y gallesid ei hosgoi yn cryfhau o hyd, buasai'n dda iawn gennym pe buasai Cymdeithasfa ein brodyr y Trefnyddion yn ei adael yn "open question"—yn bwnc agored—gan adael perffaith ryddid i gymdeithasau ac aelodau eu cyfundeb fynegi eu barn yn ei gylch yn ôl argyhoeddiad eu calonnau. Er hynny, ni buasem ni ddim byth yn cyfeirio at eu "Penderfyniadau" oni buasai eu bod yn dylanwadu'n bellach na chylchoedd eu cyfundeb hwy. Y maent yn dylanwadu yn llydan ac yn drwm, ac yr ydym yn ofni'n fawr eu bod yn dylanwadu er *drwg*.

1. Y maent, er mewn iaith dyner, yn rhoddi ergyd trwm i'r rhai sydd mewn modd pwylllog o waelod eu cydwybodau wedi "siarad ac ysgrifennu yn erbyn y rhyfel."

2. Y maent yn rhoddi cefnogiad cryf i'r pendefigion uchelfrydig, erlidgar a nwydwyllt, sydd wedi gwneud ac yn gwneud eu gorau yn y dull

HEDDWCH A RHYFEL

mwyaf trahaus ac athroddgar i ddiraddio Cymdeithas Heddwch.

3. Y maent yn ategu'r cam-ddarluniadau echrhydus a ddyfal ledaenwyd drwy'r deyrnas gyda golwg ar holl helynt y rhyfel.

4. Y maent wedi cynorthwyo i fagu drygau echrhydus teimladau rhyfelgar drwy holl gyrrau'r Dywysogaeth.

5. Y maent yn dirgymell ac yn ysbarduno gweinidogion y llywodraeth i ryfygus ymwthio ymlaen ar ffordd ddrwg.—*Ionawr*, 1855.

Ymweliad Victoria â Ffrainc.

UN o bynciau mwyaf newyddiaduron Lloegr yn y dyddiau hyn ydyw'r lles llydan a ddeillia i ddeiliaid Ffrainc a Lloegr oddi wrth ymweliad ein Brenhines â Ffrainc. Y maent yn rhesymu'n ardderchog y bydd i'r boneddigeiddrwydd a'r moesau da a ddangosodd hi a'i phriod drwy holl gylchoedd eu hymdaith yno, ac y bydd i'r cusanau a dderbyniodd ar ei dwyrudd gan Ymerawdwr Ffrainc, ynghyd â phob croeso arall a dderbyniasant yno, effeithio'n dda ar eu hysbrydoedd tywysogaidd hwy, ac ar ysbrydoedd eu deiliaid hefyd. . . Yr ydym yn credu o'n calon pe buasai chwarter yr anfoneddigeiddrwydd a amlygodd Lloegr tuag at Rwsia o fewn cylch y ddwy flynedd olaf yn cael ei amlygu tuag at Ffrainc, y buasai Ffrainc a Lloegr ymhell cyn hyn yng nghanol cynddaredd a difrod a galanastra y rhyfel erchyllaf yn erbyn ei gilydd, ar dir ac ar fôr. . .

Ni byddai fawr i bobl Lloegr ystyried mai plant Adda sy'n cyfarfod tua Downing-street, mai plant Adda sy'n croes-ddadlau yn hen gapel newydd Sant Steffan, mai plant Adda sy'n gosod geiriau wrth ei gilydd yn ein Printing-House Squares, mai plant Adda sy'n byw ac yn dawnsio yn llysoedd Napoleon o Ffrainc, ac mai plant yr un Adda sy'n byw yn llysoedd Alexander o Rwsia. Ni byddai fawr i bobl Lloegr—i *ddiwinyddion* a *philosophyddion* Lloegr, beth bynnag—ddeall bellach y gwna'r boneddigeiddrwydd, a'r dyn-garwch, a'r cymwynasgarwch, a'r lletygarwch, a'r dweud y gwir mewn cariad, a'r cydweithredu cyfeillgar i noddi celfyddyd a rhinwedd, a'r bowio, a'r ysgwyd dwylo, a'r "cusanu dwyrudd," a'r cydfarchogaeth, a'r cydymrodio, a'r cydwledda mewn serch a llawenydd y sy'n effeithio'n dda ar un llys effeithio'n dda ar y llys arall hefyd. —*Hydref*, 1855.

Ffrainc a Lloegr yn Arglwyddesau'r Byd.

GAN fod Ffrainc a Lloegr yn *awr* mor *gydunol*, y mae eu newyddiaduron mwyaf cymedrol yn hyf ymfrostio mai iddynt hwy y perthyna arglwyddiaeth y byd. Eu syniad ydyw fod rhagluniaeth fawr y nef yn eu hordeinio hwy i fod yn *gyd*-arglwyddesau'r byd, ac yn ymddiried iddynt ei *gyd*-arglwyddiaeth. Eu bost, ym meddwdod eu balchder a'u barbariaeth, ydyw fod *Fate* yn rhoddi iddynt hwy "*the joint-supremacy of the world.*"

HEDDWCH A RHYFEL

Dylai bob Prydeiniwr gonest ardystio yn erbyn honiadau y fath ymffrost, yn erbyn rhyfyg y fath ffolineb, yn erbyn gwallgofrwydd y fath falchder. Y mae llysoedd Lloegr a Ffrainc yn ceisio dal i haeru fod Pedr Fawr, neu Catrin, neu Nicholas, neu rywun—rywbryd, yn rhywle yn Rwsia—wedi dweud neu ysgrifennu, drwy ei gwsg neu drwy ei ddeffro, pan yn feddw neu pan yn sobr, mai *Rwsia oedd i fod yn arglwyddes y byd*. Os dywedwyd hynny gan rywun rywdro yn Rwsia, dywedwyd peth dwl iawn yno; ond rhoddwn her i bleidwyr y rhyfel presennol ddangos pa bryd y darfu i neb yn Rwsia ymffrostio mor rhyfygus ac mor goelgrefyddol ag y mae Ffrainc a Lloegr yn ymffrostio'n awr wrth gyhoeddi mor ddigywilydd mai iddynt hwy y perthyn *joint-supremacy* y byd. Y mae eu brol anghyfiawn yn *insult* i holl deyrnasoedd y ddaear.

Yr ydym yn gobeithio fod pobl decach a challach yn Rwsia, ie, ac ym Mhrwsia ac Awstria—heb sôn dim am America a gwledydd newyddion y byd—na'r bobl sydd yn awr yn Ffrainc a Lloegr yn bostio eu *joint-supremacy*. Os ydyw pobl Rwsia mor annheg ag ydyw bostwyr beilchion, barbaraid Ffrainc a Lloegr, gall yr oes bresennol ganu'n iach i dangnefedd a ffyniant teyrnasoedd Ewrob.—*Hydref*, 1855.

Y Weddi Fawr.

[Fe gyfansoddwyd hon gan S.R. i ateb "Gwladgarwr," ar ôl i S.R. ymosod yn ysgubol ar orchymyn Victoria am ddydd o weddi, pan ddywedasai S.R., "Yr ydym yn gorfod credu . . . fod ein gweddiau yn ddrewdod yn ffroenau y nefoedd, yn ffeidd-dra yng ngolwg yr Arglwydd." Fe gyhoeddwyd y weddi ym mis Gorffennaf, 1854.]

O ARGLWYDD Y LLUOEDD, gwena ar dy weision ag ydynt yn awr wedi ymarfogi ac ymfyddino at waith angau. Anadla i'w heneidiau, O Dduw ein rhyfeloedd, wir ysbryd eu galwedigaeth. Caniatâ iddynt anghofio dy hen air "Na ladd," a gollwng dros gof y gorchymyn diweddarach "Cerwch eich gelynion."

Gwyddost, O Dduw Hollwybodol, nad yw y dyddiau hyn ddim yn amser cyfaddas i gydsynio â deddfau efengyl dy Fab Iesu. Gwyddost na ddaeth yr amser eto i bregethu egwyddorion cariad a heddwch. Arfoga ein milwyr â syniadau mwy gweddus i'w gorchwylion presennol. Llanw hwy ag ysbryd rhyfel. Ennyn fflamau dial yn eu mynwesau. Calonoga hwy at waith difrod a dinistr. Boed iddynt yn dy nerth di allu trywanu y gelyn a'i fathru tan draed. Dilyned yr haint a'r newyn holl orchestion eu hymdaith, fel y nycher nerthoedd holl dir y gelyn. Cyfarwydda di eu gwaywffyn a'u pelenni at eisteddfa bywyd, fel y gallont fedi ar frys, ac mewn gogoniant, gynhaeaf marwolaeth.

HEDDWCH A RHYFEL

Gwyddost, O Dduw Santeiddiaf, fod ein gelynion barbaraid, llofruddiog yn haeddu damnedig aeth uffern, a nertha ein milwyr i'w hanfon o ffordd ar unwaith i'r lle nad yw eu pryf yn marw na'u tân yn diffodd.

Bydd di, O Iôr ein tarian, yr hwn wyt y ddoeth o galon, yn ŵr o gyngor i'n maeslywyddion a'n môrlywyddion. Bydd yn eu canol pan y tynnu eu cynlluniau i ddrysu a darostwng y gelyn, a saf ar eu deheulaw hefyd trwy oriant tanlyd yr orchest ar uchelfannau y maes. Bendithia ein cynlluniau a'n cynllwynion. Gwna yn rasol ar gyfrwystr eu trefniadau ac a ddewrder eu hymosodiadau. Tro atynt hannerthoedd celfyddyd a gwybodaeth, er mwyn gwneuthur eu rhuthrgyrchoedd yn effeithiol. Llwydda eu milwriaeth er mwyn dinistrio holl amddiffynfeydd y gelyn ac er mwyn dihysbyddu eu holl gyfnerthoedd. Galluoga hwy i'w daro fel na chyfodo mwy.

Ymladd drosom y waith hon, O Dduw ein byddinoedd, a dyro i ni fuddugoliaeth fel y mol-iannwn dosturiaethau dy drugaredd, a chyfiawnder dy ddialedd, drwy haeddedigaethau marwol ing dy annwyl Fab, ein Pryniawdwr. Amen.

PEDAIR NOFEL GYMRAEG.

E. Tegla Davies: GWR PEN Y BRYN

Gyda Deg o Ddarluniau. 230 td. Lliain, 3s. 6d.

"Stori fyw, wreiddiol, gyffrous a hollol ar ei phen ei hun."—*Y Tyst*.

"This is a novel to read and to keep."

—*South Wales News*.

W. D. Owen: MADAM WEN

Rhamant dlos a chynhyrfus. *Ail argraffiad*.
188 td. Lliain, 3s. 6d.

"Y mae pob pennod o *Madam Wen* yn gymhleth o antur, rhyfyg, gwrhydri a dirgelwch."—*Y Llenor*.

"Saif *Madam Wen* yn arwres o'r dechrau i'r diwedd, a rhyw gyfaredd rhyfedd yn dilyn ei holl rawd. . . Dyma stori fyw o'r dechrau i'r diwedd, swynir ni gan symudiadau lledrith *Madam Wen*, a denir ni ymlaen gan awydd am agoriad i ddirgelwch hudol yr hanes. *Dyma lyfr a ddarllenir gydag afiaith*."—MR. E. MORGAN HUMPHREYS yn *Y Genedl Gymreig*.

T. Gwynn Jones: LONA

Lliain, 2s. 6d.

"*Lona* is almost unique in Welsh. It is a love story, a romance, a perfectly constructed best seller which ought to create a furore in Wales and go through a dozen editions."—MR. SAUNDERS LEWIS.

"Darllenir *Lona* gydag awch o'r dechrau i'r diwedd. Gwneuthum hynny fy hun. Stori rwydd, yn llawn o ddigwyddiadau cyffrous a helyntion i'ch cadw'n effro."—MR. E. MORGAN HUMPHREYS.

Kate Roberts: DEIAN A LOLI

Gyda Darluniau. Lliain Ystwyth, 2s. 6d.
Byrddau, 3s.

"Un o'r llyfrau plant gorau a gafwyd ers blynyddoedd yw *Deian a Loli*. Tri swllt yw ei bris, ac y mae hwnnw'n bris isel iawn am lyfr mor wych."—*Y Faner*.

"Hanes swynol dau efell sydd yma. Y mae'r awdures yn deall plant i'r dim, ac y mae'r stori yn naturiol ac yn debyg i fywyd"—*Y Llenor*.

I'w cael trwy'r Llyfrwerthwyr ym mhobman.

HUGHES A'I FAB, WRECSAM.